

Adroddiad Blynyddol ar Droseddau Casineb

2017–18

Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Droseddau Casineb

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.....	3
Adroddiad ar Droseddau Casineb	5
Hil a Chrefydd.....	6
Troseddau Casineb Homoffobaidd, Deuffobaidd a Thrawsffobaidd	8
Troseddau Casineb Anabledd.....	10
Ysgogi Casineb.....	12
Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn.....	13
Adroddiad ar ddata Troseddau Casineb.....	15
Atodiad I: Erlyniadau yn ôl Ardal ac ardal lluoedd yr heddlu	50
Geirfa ac acronymau	59

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus



Hon yw'r 11^{eg} blwyddyn yr ydym wedi bod yn adrodd ar ein perfformiad yn ymwneud â throeddau casineb. Eleni cynyddodd nifer yr euogfarnau, lle roedd cynnydd wedi'i gyhoeddi a'i gofnodi mewn hyd dedfrydau, i 67.1% sy'n rhagori ar yr uchelgais a osodwyd gennym yng nghynllun busnes 2020 Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae rhagori'n llawer cynt na'r disgwyl ar y nod y bu i ni osod i ni'n hunain yn gadarnhaol ond nid yw hyn yn golygu y byddwn yn hunanfodlon mewn unrhyw ffordd. Byddwn yn parhau i weithio i gynyddu'r ffigur hwn o un flwyddyn i'r llall, gan anfon neges glir y dylai troeddau ddisgwyl dedfryd uwch os byddant yn targedu rhywun oherwydd eu hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol neu anabledd.

Ochr yn ochr â'r cynnydd sylweddol hwn mewn hyd dedfrydau, cafwyd cynnydd cyffredinol yng nghyfradd yr euogfarnau a phleon euog. Yn ogystal, bu gostyngiadau yn

nifer yr achosion sy'n dod i ben oherwydd materion yn ymwneud â'r achwynydd. O'u cyfuno, dengys y ffactorau hyn ganlyniadau gwell i ddioddefwyr a thystion.

Un o'r pethau yr wyf yn wirioneddol falch o'i weld eleni yw'r gydnabyddiaeth y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi'i chael gan randdeiliaid allanol. Dengys archwiliad thematig ar y cyd yr HMCPSP a'r HMICFRS o waith ymdrin ag achosion yn ymwneud â throeddau casineb anabledd y cynnydd sylweddol yr ydym wedi'i wneud yn y maes hwn yn dilyn archwiliadau blaenorol yn 2013 a 2015. Mae yno lawer y gallwn ymfalchïo ynddo ac rwyf yn arbennig o falch o weld y cydlynwyr troeddau casineb yn cael eu canmol am eu hymroddiad i wella perfformiad yn y maes hwn trwy'r gwaith gwirio sicrhau rhag troeddau casineb ac adborth i erlynwyr.

Ym mis Mawrth, gofynnwyd i mi roi tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref (HASC) i droedd casineb a'i chanlyniadau treisgar. Roedd yn gyfle da i ddweud wrth y pwyllgor am waith Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynd i'r afael â throeddau casineb ond hefyd i gael trafodaeth ar rai o'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yn arbennig felly mewn perthynas â throeddau casineb anabledd lle mae'r gair 'gelyniaeth' yn methu cyfleu profiadau llawer o achwynwyr. Roedd hyn yn adleisio'r dystiolaeth a roddwyd gan eraill yn enwedig felly academyddion o Brifysgol Sussex a gynhwysodd y maes hwn yn eu hadroddiad diweddar ar Droeddau Casineb a'r Broses Gyfreithiol oedd hefyd yn cydnabod gwaith caled ac ymroddiad Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth erlyn troeddau casineb.

Cyhoeddwyd hefyd yn 2017 Adolygiad Lammy ar yr ymdrinaeth o Unigolion Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig a'r canlyniadau ar eu cyfer yn y System Cyfiawnder Troeddol ac roedd yn canmol Gwasanaeth Erlyn y Goron am ei natur agored i graffu allanol. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ymfalchïo ynddo mewn perthynas â throedd casineb. Mae cyfraniad ac arbenigedd aelodau'r gymuned sy'n eistedd ar ein Panelau Craffu ac Ymgysylltiad Lleol ym mhob un o Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron a'n Panelau Craffu Cenedlaethol yn gwella'n gwaith yn fawr. Eleni mae ein rhanddeiliaid

gwerthfawr wedi ein cefnogi yn ein gwaith ar droseddau yn erbyn pobl hŷn a throseddau casineb sy'n cael effaith ar Gymunedau Sipsi, Roma a Theithio sy'n parhau i mewn i 2018-19.

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r heddlu i wella ein hymateb ar y cyd i droseddau casineb. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'n gilydd i ddeall y rhesymau am y gostyngiad mewn achosion o droseddau casineb y tynnir sylw atynt ac a gyfeirir at Wasanaeth Erlyn y Goron gan yr heddlu ar gyfer cael cyhuddiad. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r heddlu eleni i ddatblygu rhestr wirio ar gyfer achosion o droseddau casineb i gefnogi'r heddlu ac erlynwyr i sefydlu a chyflwyno tystiolaeth o elyniaeth mewn achosion o droseddau casineb. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith hwn yn 2018-19.

Yr Adroddiad hwn ar Droseddau Casineb yw fy adroddiad olaf fel Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Rwyf yn falch o waith ein tîm pencadlys, cydlynwyr ardal troseddau casineb a staff ymroddedig Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n ymwneud â'r achosion hyn. Rhaid cymeradwyo eu hymroddiad i wella'n barhaus y ffordd yr ydym yn gweithio a sicrhau bod ein gwaith achos o'r ansawdd uchaf.

Mae'n amlwg y gwelwyd rhai gwelliannau arwyddocaol yn ein perfformiad yn ymwneud â throseddau casineb yn 2017-18 yn ogystal â chydabyddiaeth bwysig gan bartneriaid gwerthfawr. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy yn y flwyddyn i ddod. Mae diweddarau'r cynllun gweithredu trawslywodraethol ar droseddau casineb, a gyhoeddwyd yn Hydref 2018, wedi bod yn fodd i barhau i ganolbwyntio ar ein gwaith yn y maes hwn. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i ychwanegu at ei lwyddiant, yn cydnabod meysydd i'w gwella a gwaith gyda phartneriaid i roi cyfiawnder i'r rhai hynny y cafodd droseddau casineb effaith arnynt.



Alison Saunders CB

Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus
Hydref 2018

Adroddiad ar Droseddau Casineb

Yr Adroddiad hwn ar Droseddau Casineb yw'r degfed a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae'n ddadansoddiad o'r erlyniadau allweddol ym mhob edefyn o droseddau casineb - troseddau casineb anabledd, troseddau casineb homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a throseddau casineb wedi eu gwaethygu oherwydd hil a chrefydd - yn ogystal ag ysgogi casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn.

Mae'r adroddiad yn darparu asesiad o waith erlyn troseddau sy'n bodloni diffiniad o drosedd casineb y cytunodd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a Gwasanaeth Erlyn y Goron arno:

"unrhyw drosedd sydd, ym marn y dioddefwr neu unrhyw berson arall, wedi'i gymhell gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil gydnabyddedig; ei grefydd neu grefydd cydnabyddedig; ei gyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol cydnabyddedig; ei anabledd neu anabledd cydnabyddedig ac unrhyw drosedd a gymhellir gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn person sy'n drawsryweddol neu a gydnabyddir ei fod yn drawsryweddol."

Ym Mawrth 2018, cyhoeddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei [Strategaeth Troseddau Casineb 2017-2020](#) sy'n egluro sut mai nod Gwasanaeth Erlyn y Goron yw sicrhau cyfiawnder a chefnogaeth i'r rhai hynny y mae'r troseddau hynny'n cael effaith arnynt. Dylid darllen y strategaeth mewn cydweithrediad â'r cynllun gweithredu trawslywodraethol ar droseddau casineb - ['Action Against Hate: The UK Government's Plan to Tackle Hate Crime'](#) a gyhoeddwyd yn 2016. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyflawni ar nifer o'i weithredoedd yn y cynllun gweithredu trawslywodraethol ar droseddau casineb yn ogystal â chyfrannu at ddiweddariad o'r cynllun a gyhoeddwyd yn Hydref 2018. Yn y diweddariad diweddar hwn, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymrwymo i barhau â'i waith yn hyrwyddo euogfarnau er mwyn cynyddu gwaith adrodd, cefnogi hawl wyr a thystion a chael dedfrydau hwy ar gyfer erlyniadau troseddau casineb. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i weithio fel rhan o gyd-fwrdd strategaeth troseddau casineb gyda'r heddlu a phartneriaid eraill y llywodraeth.

Cyhoeddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei [weledigaeth 2020](#) yn 2016. Fel rhan o'r cynllun hwn, ymrwymodd Gwasanaeth Erlyn y Goron i wella hyder y cyhoedd trwy gynyddu perfformiad ar gynyddu hyd dedfrydau mewn cysylltiad â throseddau casineb i 55%. Yn 2017-2018, 67.1% oedd perfformiad Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gynyddu hyd dedfrydau - mwy na 10 pwynt canran yn uwch na'n nod ar gyfer 2020. Er bod Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyrraedd ei nod ar gyfer 2020, mae'n cydnabod bod mwy i'w wneud. Mae rhagor o waith wedi'i gynllunio ar gyfer 2018-19 i barhau â'r duedd hon sy'n mynd ar ei fyny.

Ym Mawrth 2018, cyhoeddwyd [y Strategaeth Cynhwysiad ac Ymgysylltiad Cymunedol](#), yn egluro sut byddwn yn dwyn cymunedau i mewn i'n gwaith, sicrhau cynrychiolaeth amrywiol a sut byddwn yn mynd â'r gwaith hwn mewn troseddau casineb ymlaen. Rydym wedi ymrwymo i ddwyn cymunedau i mewn yn lleol trwy Banelau Craffu ac Ymgysylltiad Lleol sy'n ymwneud â throseddau casineb ac yn genedlaethol trwy Banelau Craffu Cenedlaethol ar droseddau casineb a Grŵp Ymgynghori Allanol cynlluniedig.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu data, sylwebaeth ac astudiaethau achos allweddol mewn adrannau ar wahân ar gyfer pob un o edefynnau'r troseddau casineb, yn ogystal ag achosion o ysgogi casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn casglu data atddibenion rheoli achosioner mwyn cynorthwyo gyda gwaith rheoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn casglu data sy'n ystadegau swyddogol fel y'u diffinnir yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.¹

¹ Cedwir yr ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throseddau a phlisma gan y Swyddfa Gartref a chedwir yr ystadegau

Sylwch fod manylion a gwaith dadansoddi'r data i'w gweld yn adran nesaf yr adroddiad hwn, [yr adroddiad ar ddata](#) troseddau casineb. Yn yr adroddiad data hwn hefyd ceir rhagor o fanylion ar weithgarwch Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r camau nesaf.



Am ragor o wybodaeth ar gynyddu hyd dedfrydau, gan gynnwys rhai o'r newidiadau yn y modd y caiff y data hyn eu cyfrifo, ewch i'r adran 'Darllen yr Adroddiad' yn yr Adroddiad ar y Data.

Hil a Chrefydd

Yn 2017-18, cwblhaodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ei gynllun gweithredu ar gyfer cefnogi cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr y mae troseddau casineb yn cael effaith arnynt. Ymhlith y camau a gymerwyd roedd hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol mewn achosion perthnasol i wella hyder y cyhoedd a chynnwys cyfeiriadau priodol at gymunedau Sipsi Roma a Theithwyr mewn canllawiau a datganiadau polisi. Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i weithio gyda phartneriaid o'r cymunedau uchod i gefnogi dioddefwyr troseddau casineb.



swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, troseddwy'r a ddygir i gyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r we, a'r cyfryngau cymdeithasol yn benodol, wedi creu llwyfannau a chyfleoedd newydd i droseddau casineb ddigwydd. Gall bod yn darged troseddau casineb ar-lein gael effaith ddinistrol ar achwynwyr, tystion a chymunedau ehangach. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd troseddau casineb ar-lein mor ddifrifol ag y mae droseddau casineb oddi ar-lein, fel y dengys y ddwy ddedfryd hyn:

Troseddau casineb wedi eu gwaethgu oherwydd hil -postiodd y diffynnydd lun ar Facebook ynghyd â sylw tramgwyddus am Iddewon. Heriodd ffrind y diffynnydd amhriodoldeb yr hyn a bostiwyd ac ymosodwyd arno'n eiriol gyda delweddau a geiriau sarhaus, hiliol a gwrth-Semitaidd, gyda rhai ohonynt yn cyfeirio at yr holocaust. Dywedodd yr achwynnydd yn ei datganiad bod hyn wedi ei hypsetio a'i hysgwyd a'i bod yn teimlo'n ddig. Cyhuddwyd y diffynnydd o anfon gohebiaeth / erthygl o natur dramgwyddus, yn groes i adrannau 1 a 4 Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988. Plediodd y diffynnydd yn euog yn y gwrandawriad cyntaf ac fe'i dedfrydwyd i orchymyn cyfeirio ieuenctid am chwe mis, wedi ei gynyddu i naw mis oherwydd y gwaethgiad hiliol. Gorchymynwyd iddi hefyd dalu £25 o iawndal i'r achwynnydd.

Troseddau casineb wedi eu gwaethgu oherwydd crefydd - Erlynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru ddau unigolyn am bostio negeseuon afresymol o dramgwyddus ar Facebook. Gwnaethpwyd y ddau bost wedi'r ymosodiad ar Fosg Finsbury Park ym Mehefin 2017 ac roedd yn ymwneud â'r digwyddiad hwn. Gwnaethpwyd y post cyntaf gan fab perchennog Pontyclun Van Hire - y cwmni yr oedd y diffynnydd wedi llogi'r fan yr oedd yn ei gyrru yn ystod yr ymosodiad, ganddo. Postiodd yr ail droseddwr sylw oddi tano oedd yn cefnogi'r neges wreiddiol Arestwyd y ddau droseddwr ac fe'u cyhuddwyd o drosedd dan adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Plediodd y ddau'n euog ac fe'u dedfrydwyd i 12 wythnos dan glo wedi ei ohirio am 12 mis. Codwyd hyn o wyth wythnos oherwydd bod y drosedd yn un a waethgwyd oherwydd crefydd.

Dengys y ddau achos hyn fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynd i'r afael â throseddau casineb ar-lein yn unol â'i bolisi i ymdrin â'r achosion hyn mor ddifrifol ag achosion o droseddau oddi ar-lein.

Data troseddau casineb wedi eu gwaethgu oherwydd hil a chrefydd wedi'u cyfuno:

- Cynyddodd swmp troseddau casineb wedi eu gwaethgu oherwydd hil a chrefydd ac a gyfeirir gan yr heddlu o 10,706 yn 2016-17 i 11,200 yn 2017-18.
- Gostyngodd swmp yr erlyniadau a gwblhawyd o 12,004 yn 2016-17 i 11,881 - gostyngiad o 123 (1.0%).
- Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 83.8% yn 2016-17 i 85.4% yn 2017-18.
- 69.9% oedd cyfran yr achosion yn 2017-18 a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd hwy wedi'i chyhoeddi a'i chofnodi, o 57% y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 12.9 pwynt canran.

Data troseddau casineb wedi eu gwaethgu oherwydd hil:

- Cynyddodd swmp troseddau casineb wedi eu gwaethgu oherwydd hil ac a gyfeirir gan yr heddlu rhyw fymryn o 10,198 yn 2016-17 i 10,472 yn 2017-18 - cynnydd o 2.7%.

- Gostyngodd swmp yr erlyniadau a gwblhawyd o 11,411 yn 2016-17 i 11,061 yn 2017-18 - gostyngiad o 3.1%.
- Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 84.0% yn 2016-17 i 85.4% yn 2017-18
- Cynyddodd pleon euog hefyd o 74.2% yn 2016-17 i 76.4% yn 2017-18
- 69.9% oedd cyfran yr achosion yn 2017-18 a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd hwy wedi'i chyhoeddi a'i chofnodi, o 57% y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 12.9 pwynt canran.

Data troseddau casineb wedi eu gwaethygu oherwydd crefydd:

- Cynyddodd swmp troseddau casineb wedi eu gwaethygu oherwydd crefydd ac a gyfeirir gan yr heddlu yn sylweddol o 508 yn 2016-17 i 728 yn 2017-18 - cynnydd o 43.3%.
- Cynyddodd swmp yr erlyniadau a gwblhawyd hefyd yn sylweddol o 593 yn 2016-17 i 820 yn 2017-18 - cynnydd o 38.3%.
- Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 80.6% yn 2016-17 i 84.3% yn 2017-18
- Cynyddodd pleon euog hefyd o 70.3% yn 2016-17 i 72.8% yn 2017-18
- 69.2% oedd cyfran yr achosion yn 2017-18 a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd hwy wedi'i chyhoeddi a'i chofnodi, o 57.0% y flwyddyn flaenorol - cynnydd o dros 12 pwynt canran.

Dolen i'r [adran ar ddata troseddau casineb wedi eu gwaethygu oherwydd hil a chrefydd](#) i gael manylion o weithgareddau Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.

Troseddau Casineb Homoffobaidd, Deuffobaidd a Thrawsffobaidd

Yn 2017-18, darparodd Gwasanaeth Erlyn y Goron hyfforddiant gorfodol i erlynwyr ar droseddau casineb oedd yn targedu cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd, hyfforddiant oedd yn canolbwyntio ar dynnu sylw at achosion, cyhuddo, datblygu strategaeth achos a chyflwyno tystiolaeth o elyniaeth er mwyn cael dedfryd hwy wedi'i chofnodi. Gweithiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron gyda [Stonewall](#) a [Galop](#) ar gynnwys yr hyfforddiant yn ogystal ag ar fideos cyflwyniadol ar gyfer y cwrs. Rhoesant gipolwg sylweddol ar y materion cyfredol y daw cymunedau ac unigolion ar eu traws, a sicrhau bod yr astudiaethau achos yn adlewyrchu'r gwir am batrymau a chyd-destunau troseddu cyfredol.

"Er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gydraddoldeb yn y blynyddoedd diweddar, gwyddom fod pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) yn parhau i wynebu lefelau cynyddol o droseddau casineb, sarhad a thrais. Dyna paham, ochr yn ochr â Galop, fod Stonewall wrth eu boddau'n cefnogi Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddatblygu pecyn hyfforddi i gynorthwyo i wella hyder erlynwyr i adnabod troseddau casineb homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd ac ymdrin â nhw. Mae gwaith rhagweithiol fel hyn yn hanfodol i gynorthwyo i godi hyder dioddefwyr a bydd hefyd yn anfon neges rymus y cymerir gelyniaeth sy'n seiledig ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn ddifrifol iawn"

Tom Morrison, Swyddog Polisi, Stonewall

"Mae hon yn fenter wych ac roeddem yn falch iawn i weithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron arni. Mae hyfforddiant i ddeall cymhlethdod yr angen ynghylch y rhai hynny y mae homoffobia, deuffobia a thrawsffobia'n cael effaith arnynt yn rhan allweddol oymateb yn briodol, felly mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn haeddu canmoliaeth am fuddsoddi yn y rhaglen hon"

Nick Antjoule, Pennaeth y Gwasanaethau Troseddau Casineb, Galop

Yn 2017-18, cyfrannodd Gwasanaeth Erlyn y Goron at greu [Cynllun Gweithredu'r LGBT](#) a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth ym mis Gorffennaf. Mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron nifer o weithredoedd yn y cynllun sy'n cynnwys diweddaru pecynnau ysgol ar droseddau casineb LGBT mewn partneriaeth â phobl ifanc LGBT a gweithwyr proffesiynol gyda phrofiad o wrthwynebu bwlio mewn ysgolion sy'n seiliedig ar hunaniaeth.

Troseddau casineb homoffobaidd - fe wnaeth troseddwr fygwth dod â bom i orymdaith LGBT yng Nghaerdydd. Dywedodd y troseddwr wrth deithwyr ar drên oedd yn mynd i Pride Cymru fod ganddo fom yn ei sach deithio. Dywedodd y troseddwr wrth y rhai ar y trên, 'Adda ac Efa oeddyn nhw, nid Adda ac Adda'. Dywedodd hefyd fod pobl LGTB yn 'ffiaidd'.

Galwodd un o'r teithwyr ar y trên 999 ac arestiwyd y troseddwr gan yr heddlu. Nid oedd y troseddwr yn cario bom a gwn tegan oedd ganddo yn ei sach deithio.

Cyfaddefodd gyfleu neu roi wybodaeth anwir yn fwriadol ac fe'i dedfrydwyd i naw mis o garchar oedd yn cynnwys cynnydd o dri mis yn ei ddedfryd i adlewyrchu'r elfen o drosedd casineb.

Troseddau casineb trawsffobaidd - Erlynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron Swydd Efrog a Humberside achos o drosedd casineb trawsffobaidd. Anfonodd y diffynnydd gyfres o negeseuon testun tramgwyddus, trawsffobaidd a bygythiol at yr achwynnydd a bygwth rhoi lluniau ohoni ar y we. Cafodd ei gyhuddo o ddefnyddio geiriau bygythiol, tramgwyddus neu sarhaus neu ymddygiad i achosi aflonyddwch, dychryn a gofid. Plediodd y diffynnydd yn euog yn y gwrandawriad cyntaf ac fe'i dedfrydwyd i ddirwy o £200 wedi ei chodi o £100 a rhoddwyd Gorchymyn Atal hefyd. Fe'i gorchymynwyd hefyd i dalu costau o £85 a tâl ychwanegol o £30 i'r dioddefwr.

Data troseddau casineb homoffobaidd a thrawsffobaidd wedi eu cyfuno:

Erys nifer y troseddau casineb trawsffobaidd yn isel felly gall newidiadau bychain gael effaith sylweddol ar y data.

- Cynyddodd swmp yr achosion o droseddau casineb homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a gyfeiriwyd gan yr heddlu o 1,392 yn 2016-2017 i 1,564 - cynnydd o 172 o gyfeiriadau (12.4%).
- Cynyddodd swmp yr erlyniadau a gwblhawyd o 1,467 yn 2016-2017 i 1,518 yn 2017-18 - cynnydd o 51 o erlyniadau (3.5%).
- Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 82.5% yn 2016-17 i 84.5% yn 2017-18.
- 63.8% oedd cyfran yr achosion yn 2017-18 a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd hwy wedi'i chyhoeddi a'i chofnodi, o 48.9% y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 14.9 pwynt canran.

Data troseddau casineb homoffobaidd:

- Cynyddodd swmp yr achosion o droseddau casineb homoffobaidd a gyfeiriwyd gan yr heddlu o 1,305 yn 2016-2017 i 1,472 - cynnydd o 167 o gyfeiriadau (12.8%).
- Cynyddodd swmp yr erlyniadau a gwblhawyd o 1,375 yn 2016-2017 i 1,436 - cynnydd o 61 o erlyniadau (4.4%).
- Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau ychydig o 83.2% yn 2016-17 i 84.9% yn 2017-18.
- 64.1% oedd cyfran yr achosion yn 2017-18 a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd hwy wedi'i chyhoeddi a'i chofnodi, o 48.6% y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 15.5 pwynt canran.

Data troseddau casineb trawsffobaidd:

- Cynyddodd swmp yr achosion o droseddau casineb homoffobaidd a gyfeiriwyd o 87 yn 2016-2017 i 92 yn 2017-18 - cynnydd o bum cyfeiriad (5.7%).
- Gostyngodd swmp yr erlyniadau a gwblhawyd o 92 yn 2016-2017 i 82 yn 2017-18 - gostyngiad o 10 erlyniad (10.9%).
- Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 72.8% yn 2016-17 i 76.8% yn 2017-18.
- 58.1% oedd cyfran yr achosion yn 2017-18 a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd hwy wedi'i chyhoeddi a'i chofnodi, o 53.8% y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 4.3 pwynt canran.

Dolen i'r [adran troseddau casineb homoffobaidd, deufobig a thrawsffobaidd](#) am fanylion gweithgarwch Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.

Troseddau Casineb Anabledd

Yn 2017-18 cynhaliodd arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) archwiliad thematig o sut mae'r gwasanaeth yn erlyn achosion o droseddau casineb anabledd. Datgan yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Medi, y bu 'cynnydd sylweddol' yn y maes hwn.


Nododd yr arolygiaeth y cafwyd ymgyrch gynaleddig gan Wasanaeth Erlyn y Goron i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb anabledd a gwella nifer yr achosion y cynyddwyd hyd eu dedfrydau sydd wedi eu cofnodi a'u cyhoeddi. Mae'r adroddiad hefyd yn canmol gwaith y cydlynwyr troseddau casineb sy'n cynnal gwaith gwirio sicrhau rhag troseddau casineb ar yr holl edefynnau troseddau casineb, yn cynnwys troseddau casineb anabledd. Disgrifiodd yr arolygiaeth waith gwneud penderfyniadau Gwasanaeth Erlyn y Goron fel 'rhagorol'.

Yn ogystal â nodi'r gwelliannau sylweddol yn y maes hwn, adnabu'r arolygiaeth hefyd rai meysydd i'w gwella y rhoddir mwy o sylw iddynt yn yr [adroddiad ar ddata](#).

Dengys canlyniadau'r archwiliad thematig yr ymdrinir ag achosion o droseddau casineb anabledd yn gywir, pan ddônt i Wasanaeth Erlyn y Goron, a hynny yn unol â'r canllawiau cyfreithiol a'r datganiad cyhoeddus a ddiwygiwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, dengys y data perfformiad ar gyfer troseddau casineb anabledd yn 2017-18 ostyngiadau siomedig mewn cyfeiriadau oddi wrth yr heddlu, erlyniadau a gwblhawyd a chyfradd yr euogfarnau.

Dengys tystiolaeth a roddir i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref gan academyddion i drosedd casineb a'i chanlyniadau treisgar, anawsterau erlyn troseddau casineb anabledd a chynyddu cyfnod dedfryd. Bu iddynt ddatgan nad yw'r gair 'gelyniaeth' mewn deddfwriaeth trosedd casineb yn ffitio gyda gwirionedd cyfran fawr o droseddau casineb anabledd lle caiff unigolion eu targedu oherwydd bregusrwydd amlwg. Cefnogir hyn gan waith ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Sussex ac sydd wedi'i gynnwys yn eu hadroddiad, 'Hate Crime and the Legal Process'

Caiff rhai troseddwyd eu cymell gan ganfyddiad fod pobl anabl yn 'fregus' neu'n 'darged hawdd', yn hytrach na chan elyniaeth neu gasineb. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig ac nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gallu gwneud cais am gynnydd statudol yng nghyfnod y ddedfryd dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn yr achosion hyn. Fodd bynnag, os nad yw trosedd yn cwrdd â'r diffiniad cyfreithiol o drosedd casineb anabledd, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyflwyno i'r llys unrhyw dystiolaeth y caiff person anabl ei dargedu am y rheswm hwn, fel bod y ddedfryd yn adlewyrchu difrifoldeb y cyfryw trosedd, hyd yn oed os nad oes modd cael cynnydd yng nghyfnod dedfryd.



Heriodd Gwasanaeth Erlyn y Goron Gogledd-ddwyrain Lloegr yn llwyddiannus ddedfryd a roddwyd yng nghyswllt achos o drosedd casineb anabledd. Rhoddwyd gorchymyn rhag molestu ar y troseddwr yn ei atal rhag cysylltu â'i fam. Ar ddau achlysur torrodd y gorchymyn hwn a chysylltu â hi. Gwaeddodd sylwadau tramgwyddus arni yng nghyswllt ei hanabledd, ei bygwth, poeri i'w hwyneb a hitio'i phen yn erbyn pen gwely. Cyhuddwyd y troseddwr o ddau achos o dorri'r gorchymyn rhag molestu a dau gownt o guro. Erlynwyd y ddau gownt o guro fel troseddau casineb anabledd. Plediodd y troseddwr yn euog ac fe'i dedfrydwyd i ddeuddeg wythnos dan glo am dorri'r gorchymyn rhag molestu, pedair wythnos dan glo am bob ymosodiad - i redeg yr un pryd a £200 o iawndal. Fodd bynnag, gwrthododd y llys gynyddu hyd y ddedfryd oherwydd, yn eu barn nhw, nid oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi profi fod yr achwynnydd yn anabl. Heriodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y farn hon ac egluro pam nad oedd hyn yn gyfreithlon. Ailagorwyd y dedfryd dan adran 142 Deddf Llys Yr Ynadon, gan i'r llys gyfaddef nad oedd wedi cydymffurfio'n gywir ag adran 146 a chynyddodd hyd y ddedfryd. Ailddedfrydwyd y troseddwr gyda chynnydd wedi ei gyhoeddi o wythnos o garchar am bob cownt o ymosod.

Data troseddau casineb anabledd:

- Gostyngodd swmp yr achosion o droseddau casineb anabledd a gyfeiriwyd gan yr heddlu yn sylweddol o 988 yn 2016-2017 i 754 - gostyngiad o 234 o gyfeiriadau (23.7%).
- Gostyngodd swmp yr erlyniadau a gwblhawyd yn sylweddol o 1,009 yn 2016-2017 i 752 yn 2017-18 - gostyngiad o 257 o erlyniadau (25.5%)
- Gostyngodd cyfradd yr euogfarnau o 79.3% yn 2016-17 i 75.0% - gostyngiad o 4.3 pwynt canran.
- 24.8% oedd cyfran yr achosion yn 2017-18 a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd hwy wedi'i chyhoeddi a'i chofnodi, o 15.5% y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 9.3 pwynt canran.

Dolen i'r [adran troseddau casineb anabledd](#) am fanylion gweithgarwch Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.

Ysgogi Casineb

Mae Deddf Gorchymyn Cyhoeddus 1986 yn ymwneud ag ysgogi casineb am resymau hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol. Nid oes trosedd o ysgogi casineb am resymau hunaniaeth trawsryweddol neu anabledd.

Canolbwyntia trosedd casineb ar elyniaeth neu ragfarn yn erbyn rhannau penodol o gymdeithas. Fodd bynnag, canolbwyntia troseddau gorchymyn cyhoeddus o "ysgogi casineb" ar gasineb ei hun a'r bwriad neu effaith debygol y drosedd dan sylw.

Mae nifer yr achosion a ddygir yn llawer is nag ar gyfer troseddau eraill y rhoddir sylw iddynt yn yr adroddiad hwn. Mae hyn oherwydd trothwyon tystiolaethol uwch a'r angen i ystyried hawl unigolyn i ryddid mynegiant. Cyfeirir achosion posib at yr Adran Troseddau a Gwrthderfysgaeth Arbennig (SCCTD) gan feysydd Gwasanaeth Erlyn y Goron a rhaid cael cydsyniad y Twrnai Cyffredinol i erlyn y troseddau hyn.

Erlynwyd dyn gan Adran Troseddau a Gwrthderfysgaeth Arbennig Gwasanaeth Erlyn y Goron am ysgogi casineb hiliol. Gwnaeth y troseddwr araith ar bromenâd Blackpool ym Mawrth 2016 mewn gwrthdystiad y dde eithaf, pryd dywedodd fod Adolf Hitler wedi bod yn anghywir yn dangos trugaredd at Iddewon. Mewn araith arall mewn ymgasgliad o grwpiau o'r dde eithaf yng Ngogledd Swydd Efrog, dywedodd nad oedd Iddewon yn haeddu unrhyw drugaredd a bod angen gwneud i ffwrdd â nhw. Aeth yn ei flaen i egluro'i gefnogaeth i'r grŵp neo-Natsi, 'National Action' a'i fod, mewn gwirionedd, yn recriwtio aelodau newydd iddynt. Cafodd y grŵp ei wahardd wedi hynny yn y Deyrnas Unedig a bellach caiff ei ddosbarthu fel sefydliad terfysgaeth. Wedi'r araith, atebodd gwestiynau gan y gynulleidfa ac ail-ddweud ei ddatganiadau ymfflamychol.

Dadleuodd Gwasanaeth Erlyn y Goron mai pwrpas yr araith yn amlwg oedd cael y gynulleidfa i gytuno â'i safbwynt o ac, felly, roedd yn ysgogi casineb hiliol. Yn Llys y Goron Preston derbyniodd ei fod wedi gwneud y ddwy araith a chydabod ei fod yn Natsi oedd yn casáu'r Iddewon ond gwadodd ysgogi casineb.

Cafwyd y troseddwr yn euog ac fe'i dedfrydwyd i gyfanswm o dair blynedd o garchar.

Dywedodd Sue Hemming o Wasanaeth Erlyn y Goron: "Wrth wneud yr areithiau hynny, bwriad y dyn hwn oedd ysgogi casineb ac roedd arno eisiau i eraill gasáu Iddewon fel y mae ef. Eglurodd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn y llys bod ei sylwadau'n mynd y tu draw i ryddid barn a warchodir ac yn croesi'r llinell i bardduo grŵp gan ddefnyddio iaith fygythiol a difriol mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Roedd y rheithgor yn amlwg yn cytuno".

Data ar droseddau ysgogi casineb:

- Roedd naw erlyniad yn 2017-18, gydag wyth o'r rhain yn euogfarnau. Dyma'r nifer uchaf a erlynwyd ers i ni ddechrau adrodd ar achosion o ysgogi casineb.

Dolen i'r [adran ysgogi casineb](#) am fanylion gweithgarwch Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.

Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn

Nid oes diffiniad statudol o drosedd yn erbyn person hŷn. At ddibenion Polisi Gwasanaeth Erlyn y Goron a chanllawiau cyfreithiol, person hŷn yw rhywun sy'n 60 oed neu'n hŷn.

Mae canllawiau dedfrydu'n fodd i lysoedd gynyddu hyd y ddedfryd ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn ar y sail bod eu bregusrwydd amlwg yn ffactor gwaethygedig wrth gynyddu difrifoldeb yr achos.

Yn 2017-18, cynhaliodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ddau Banel Craffu Cenedlaethol i gefnogi gwaith diweddarau canllawiau'r polisi a chanllawiau cyfreithiol ar droseddau yn erbyn pobl hŷn. Ar bob panel roedd academyddiom a phartneriaid cymunedol ag arbenigedd yn y maes troseddau yn erbyn pobl hŷn a/ neu brofiad o gefnogi pobl hŷn fel achwynwyr. Diweddarwyd canllawiau'r polisi ar ôl cael cyfraniad y panelau hyn a chyhoeddwyd y fersiwn ddiwygiedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar y10fed o Fedi. Dadansoddir ymatebion yr ymgynghoriad a chyhoeddir fersiwn derfynol yn 2018-19.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd gwaith erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn yn ddifrifol fel y dengys yr achos hwn o Wasanaeth Erlyn y Goron De-ddwyrain Lloegr. Cysylltai'r troseddwr â phobl hŷn ar eu llinellau tir gan gymryd arno ei fod yn weithiwr yn eu banc. Roedd yn eu hargyhoeddi bod problemau diogelwch gyda'u cyfrifon a gofynnodd am eu manylion banc gan gynnwys eu rhif PIN. Dywedai wrthynt am roi eu cardiau banc i negesydd a fyddai'n dod draw i'w cartref. Yna defnyddiai'r troseddwr y cardiau a'r PIN i gael at gyfrifon yr achwynnydd gan godi symiau sylweddol o arian a phrynu eitemau megis oriawr Rolex. Arestwyd y troseddwr a'i gyhuddo o dwyll ar sawl cownt. Plediodd yn euog ac fe'i dedfrydwyd i ddwy flynedd o garchar. Gorchymynwyd ef hefyd i dalu iawndal i'r rhai hynny a dargedodd.

Data troseddwr yn erbyn pobl hŷn:

- Gostyngodd nifer yr achosion a gyfeiriwyd gan yr heddlu fel Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn o 3,467 yn 2016-17 i 3,389 yn 2017-18, gostyngiad o 78 (2.2%).
- Syrthiodd swmp yr erlyniadau a gwblhawyd o 3,554 yn 2016-17 i 3,295 yn 2017-18 – gostyngiad o 259 (7.3%).
- Cynyddodd cyfran yr euogfarnau o 80.4% yn 2016-17 i 83.6% yn 2017-18.

Dolen i'r [adran troseddau yn erbyn pobl hŷn](#) am fanylion gweithgarwch Gwasanaeth Erlyn y Goron, y camau nesaf a data.

Adroddiad ar ddata Troseddau Casineb

Mae'r adroddiad ar ddata troseddau casineb yn rhoi dadansoddiad manwl o ddata pob un o edefynnau'r troseddau casineb yn ogystal ag ar achosion o ysgogi casineb yn erbyn pobl hŷn.

Adroddiad ar Ddata Troseddau Casineb

Cyflwyniad

Hwn yw degfed adroddiad Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Droseddau Casineb ac mae'n rhoi gwybodaeth ar berfformiad y gwasanaeth wrth erlyn y troseddau a ganlyn rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018:

- Troseddau casineb hiliol a chrefyddol
- Troseddau casineb homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd
- Troseddau casineb anabled; a
- Ysgogi casineb; a
- Troseddau yn erbyn pobl hŷn²

Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cytuno ar ddiffiniad cyffredin o drosedd casineb, sef:

"unrhyw drosedd sydd, ym marn y dioddefwr neu unrhyw berson arall, wedi'i gymhellir gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil gydnabyddedig; ei grefydd neu grefydd cydnabyddedig; ei gyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol cydnabyddedig; ei anabled neu anabled cydnabyddedig ac unrhyw drosedd a gymhellir gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn person sy'n drawsryweddol neu a gydnabyddir ei fod yn drawsryweddol."

Darperir y fframwaith cyfreithiol ar gyfer troseddau casineb yn bennaf gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Y gair allweddol yn y diffiniad ar y cyd a'r fframwaith cyfreithiol yw "'gelyniaeth", gair a ddefnyddir yn ei ystyr cyffredin, beunyddiol. O'r herwydd, nid oes angen i'r erlyniad broficio *casineb* fel y ffactor cymhellol y tu ôl i drosedd. (Bydd hwn yn berthnasol yn unig dan y troseddau ysgogi casineb). Nac ychwaith oes angen i'r drosedd gyfan gael ei chymhellir gan elyniaeth. Gall fod yr unig reswm am y trosedd ond, yn yr un modd, gall y fath gymhelliant chwarae rhan neu fod yn un elfen yn unig o'r ymddygiad troseddol.

Ceisio Gwasanaeth Erlyn y Goron greu a chynnal hyder cymunedau y mae troseddau casineb yn cael effaith arnynt. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth glir i'r cyhoedd am y gwaith y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei wneud i fynd i'r afael â throsedd casineb a rhoi manylion ei berfformiad. Mae hefyd yn egluro'r camau y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eu cymryd i gefnogi a chynnal perfformiad gwell.

Yn ogystal â'r dadansoddiad a roddir yn yr adroddiad hwn, mae'r data sylfaenol y mae casgliadau Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi'u seilio arnynt wedi'u cyhoeddi. [Mae'r data hyn i'w gweld ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron.](#)

Darllen yr adroddiad

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn casglu data at ddibenion rheoli achosion er mwyn cynorthwyo i reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i adolygu ei

² Mae gwybodaeth am droseddau yn erbyn pobl hŷn wedi'i chynnwys yn yr adroddiad yma. Mae rhai troseddau o'r math yma'n gallu bod yn droseddau casineb ac mae eraill nad ydynt yn droseddau casineb. Mae'n dibynnu ar ffeithiau pob achos arbennig ac nid yw cyfeiriadau at ddata am drosedd casineb yn yr adroddiad yma'n cynnwys troseddau yn erbyn pobl hŷn heblaw ei fod yn dweud hynny'n benodol.

brosesau a'i arferion cofnodi i wella rhagor ar gasglu a defnyddio'r data a ddefnyddir. Nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn casglu data sy'nystadegau swyddogol fel y'u diffinnir yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.³ Fodd bynnag, parhau mae'r diddordeb mawr gan y cyhoedd mewn cael at y wybodaeth hon.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw i Wasanaeth Erlyn y Goron fod yn dryloyw ynghylch y data y mae'n eu cadw a sicrhau y cymerir camau i wella hygyrchedd y data a gedwir a'r ddealltwriaeth ohonynt. Rhydd y data yn yr adroddiad hwn asesiad o berfformiad yn seiliedig ar y data gorau sydd ar gael gan System Gwybodaeth Reoli Gwasanaeth Erlyn y Goron. Gwneir ymdrechion trwy'r adroddiad cyfan i roi nodiadau eglurhaol i gynorthwyo gyda dehongli'r data a ddarparwyd.

Nid yw'r adroddiad yn darparu data ar ba mor gyffredin yw troseddau casineb ac ymateb cyffredinol y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol iddynt. Mae rhagor o wybodaeth a dadansoddiad dyfnach o ba mor gyffredin yw troseddau casineb ar gael yn [Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr \(CSEW\)](#) ac o'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder lle maent ar gael.

O'r herwydd, dadansoddiad o'r materion erlyn allweddol ym mhob edefyn o drosedd casineb yw'r adroddiad hwn ar ddata troseddau casineb - ceir y manylion uchod. Daw'r data sy'n sail i'r adroddiad o System Rheoli Achosion Gwasanaeth Erlyn y Goron, ei System Rheoli Tystion a'i System Gwybodaeth Reoli. Cedwir y data mewn tair cronfa ddata ar wahân yn y System Gwybodaeth Reoli⁴, yn seiliedig ar ddiffynyddion, troseddau a dioddefwyr neu dystion. Nid oes modd cymathu data rhwng y gwahanol gronfeydd data.⁵

Adnabyddir achosion o droseddau casineb gan faneri a roddir â llaw ar ddiffynyddion yn y System Rheoli Achosion ac a adroddir twy'r System Gwybodaeth Reoli. Cofnodir y data hyn fesul y sawl sydd dan amheuaeth (cyn cyhuddo) neu'r diffynnydd (wedi'r cyhuddiad) ac, felly, mae'n darparu data ar gyfeiriadau'r heddlu a'r rhai sydd dan amheuaeth ac sydd wedi'u cyhuddo yn ogystal ag ar galyniadau diffynyddion. Yn ogystal, mae'n darparu'r cyfleuster i gofnodi proffiliau cydraddoldeb diffynyddion.⁶ Dadansoddwn ganlyniadau erlyniadau gan ddefnyddio cronfa ddata diffynyddion ac, felly, mae'r adroddiad yn adlewyrchu hynny drwyddi draw. Asesir proffiliau cydraddoldeb diffynyddion, yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, ac oedran ac adroddir arnynt yn yr atodiad hwn. Adroddir ar ddata ar broffiliau cydraddoldeb dioddefwyr lle maent ar gael ac rydym yn parhau i edrych am ffyrdd i wella data sy'n ymwneud â'r dioddefwyr ac a gedwir yn y System Cyfiawnder Troseddol. Yn unol â pholisi'r llywodraeth, cyhoeddwn y data sylfaenol a ddefnyddir yn ein hadroddiadau.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio mewn nifer o ffyrdd i wella perfformiad ar achosion y tynnir sylw atynt fel troseddau casineb. Mae hyn yn golygu cefnogi'n herlynwyr; ymgysylltu'n rhagweithiol gyda rhanddeiliaid cymunedol, yr heddlu a phartneriaid eraill y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol ac adrannau'r llywodraeth a chynnal ystod o wiriadau ar y perfformiad ei hun.

Diwygiwyd y rheolau cyfrifo ar gyfer cyflwyno swmp a chyfrannau'r dedfrydau y cynyddwyd eu hyd yng nghyswllt troseddau casineb, a hynny o Ebrill 2018. Mae achosion lle mae diffynyddion wedi eu traddodi i'w dedfrydu i Lys y Goron yn sgil cyhuddiad mewn llysoedd ynadon bellach yn cael eu heithrio o'r set ddata. Nid yw data'r euogfarnau a gesglir gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn cyfleu dedfrydau a

³ Cedwir yr ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throseddau a phlisma gan y Swyddfa Gartref a chedwir yr ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, troseddau a ddygir i gyfiawnder, y llysoedd a'r farnwriaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

⁴ Yn debyg i unrhyw system gofnodi graddfa fawr, gallai'r data gynnwys gwallau a ddigwyddodd wrth fewnbynnu a phrosesu'r data. Mae'r ffigurau'n rhai dros dro a gallent newid wrth i fwy o wybodaeth gael ei chofnodi gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

⁵ Mae'r adroddiad yma'n nodi'r canlyniadau yn ôl y diffynnydd ac ni all roi gwybodaeth ar wahân am ganlyniadau sydd wedi'u seilio ar dioddefwyr neu droseddau. I'r perwyl hwnnw, ni ellir darparu data ar wahân ar gyfer canlyniadau'r achosion y mae dioddefwyr gwrywaidd a benywaidd yn eu wynebu; nid yw'n bosibl chwaith i gyfateb rhyw'r diffynnydd gyda rhyw'r dioddefwr.

⁶ Mae proffiliau cydraddoldeb diffynyddion yn cynnwys data ar eu rhywedd, oedran ac ethnigrwydd.

gynyddir sydd wedi'u cofnodi ar achosion lle gohiriwyd y ddedfryd trwy draddodi i ddedfrydu yn Llys y Goron.

Gweithdrefn lle anfonir diffynnydd a gafwyd yn euog, o lys ynadon i Lys y Goron i'w ddedfrydu, yw traddodi i'w ddedfrydu. Lle ystyria ynadon fod y cosbau sydd ar gael iddo'n annigonol o gofio difrifoldeb y drosedd neu gyfuniad o droseddau, gallent draddodi'r troseddwr i Lys y Goron i gael ei ddedfrydu.

Mae ffigurau yn yr adroddiad hwn wedi'u cynhyrchu'n unol â'r rheolau diwygiedig. Er mwyn sicrhau cysondeb, mae data ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi'u hailgyfrifo gan ddefnyddio'r dull gweithredu newydd.

O hyn ymlaen, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i ddatblygu ei ymateb i droseddau casineb a'u herlyn. Yn y pen draw, parhau i adnabod yr holl droseddau yn well a'u herlyn yn fwy effeithiol yw'r her ganolog gyda chefnogaeth ymroddedig a sicr yr holl bartneriaid perthnasol.

Llywodraethu Troseddau Casineb

Yn 2017-18, penodwyd Prif Erlynydd newydd y Goron yn hyrwyddwr cenedlaethol troseddau casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn cysylltu ar draws y Pencadlys a holl ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron. Goruchwylia Uwch-ymgynghorwyr Polisi Cenedlaethol troseddau casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron, sydd yng Nghyfarwyddiaeth Gweithrediadau Pencadlys Gwasanaeth Erlyn y Goron, y gwaith troseddau casineb ar draws Ardaloedd y Gwasanaeth. Goruchwyliaid waith cyflawni'r strategaeth troseddau casineb, yn enwedig felly trwy'r cynllun sicrhau rhag troseddau casineb a amlinellir isod. Cyhoedda arweinyddion cenedlaethol troseddau casineb newyddlenni troseddau casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron, gan amlinellu diweddariadau gwaith ar draws yr holl edefynnau troseddau casineb.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd cynlluniau i sefydlu Grŵp Ymgynghori Allanol ar gyfer troseddau casineb. Bydd y Grŵp Ymgynghori Allanol yn dwyn i mewn grwpiau allweddol sy'n arbenigo ar droseddau casineb i gynghori'r tîm polisi troseddau casineb.

Yn 2017-18, parhaodd Cydlynwyr Troseddau Casineb Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron i arwain erlyniadau troseddau casineb yn lleol a gweithio gyda Rheolwyr Ardal Cynhwysiad ac Ymgysylltu Cymunedau i gynnal Panelau Craffu ac Ymgysylltiad Lleol. Mae gan bob Ardal banelau'n ymwneud â materion troseddau casineb. Mae Cydlynwyr Troseddau Casineb yn arbenigwyr profiadol sydd wedi'u penodi ym mhob Ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron a CPS Direct⁷

Bu i Gydlynwyr Troseddau Casineb gyfarfod ddwywaith yn ystod y flwyddyn i fynd ati i drafod materion cyfredol a rhai oedd yn dod i'r amlwg, materion gweithredol ac i rannu arferion gweithio da. Yn ychwanegol at y cyfarfodydd hyn roedd cynadleddau ffôn misol dan arweiniad Cydlynwyr Troseddau Casineb profiadol i hwyluso deialog rheolaidd ar erlyn troseddau casineb ar draws Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Yn y flwyddyn adrodd, cyfrannodd Cydlynwyr Troseddau Casineb at nifer o ymarferion samplu ffeiliau; asesu effaith y Cynllun Sicrhau rhag Troseddau Casineb; a chynigion i fireinio'r cynllun.

Mae adrannau troseddau casineb wedi'u sefydlu yng ngwaith achos Gwasanaeth Erlyn y Goron a chanolfannau gwybodaeth y wefan fewnol er mwyn sicrhau fod gan erlynwyr gymorth ymarferol sy'n

⁷Mae CPS Direct yn gyfrifol am roi cyngor ar gyhuddo i'r heddlu ledled y wlad, pedair awr ar hugain y dydd, 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn.

gysylltiedig â pharatoi gwaith achos yn ogystal ag enghreifftiau o arfer da, cysylltiadau ag arweinyddion lleol, canllawiau cyfreithiol, pecynnau cymorth a newyddlenni troseddau casineb.

Cynllun Sicrhau Rhag Troseddau Casineb

Yn 2017-18, parhaodd Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron i fonitro'u perfformiad gan ddefnyddio'r Cynllun Sicrhau Rhag Troseddau Casineb a gyflwynwyd yn wreiddiol ar y 1af o Ionawr, 2015. Roedd hyn yn ymwneud â gwaith gwirio y cytunwyd arno ac a gynhelir gan arbenigwyr troseddau casineb yn fisol, gwaith sy'n cefnogi ansawdd ffeiliau a chywirdeb data. Yn ganolog i'r cynllun y mae adborth i gyfreithwyr a rheolwyr unigol, lle bo'n briodol, er mwyn gwella arferion yn unigol a pherfformiad yn fwy cyffredinol.

Yn 2017-18, adolygodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y broses sicrhau ac, o ganlyniad i hynny, diweddarodd y daenlen a ddefnyddiwyd i sicrhau parhad o ran perthnasedd a chywirdeb. Yn ogystal, cynhaliwyd asesiad o effaith y cynllun a dengys y sylwadau a ganlyn farn eang y Cydlynwyr Troseddau Casineb.

"Bu hefyd gynnydd sylweddol yn ansawdd y gwaith adolygu".

"Rydym wedi gallu codi materion i'r llys ac i'r heddlu sydd, a bod yn fanwl gywir, wedi bod y tu allan i gwmpas y cynllun ond rydym yn amau na fyddem wedi cael gwybod am y problemau hyn pe na byddem wedi cynnal y Cynllun Sicrhau Rhag Troseddau Casineb".

Nododd Archwiliad ar y Cyd yr HMCPSI o Achosion yn Ymwneud â Throseddau Casineb Anabledd fod y gwaith sicrhau ansawdd cyfredol a gynhaliwyd gan Gydlynwyr Troseddau Casineb Ardal yn gryfder:

"Roedd lefel y sicrwydd ansawdd a gynhaliwyd gan y cydlynwyr a lefel yr adborth a roesant i erlynwyr ar sut y bu iddynt ymdrin â'u hachosion o Droseddau Casineb Anabledd wedi gwneud argraff arnom".

Fel rhan o waith cymryd stoc ar ddull gweithredu cyffredinol yr adran ar gynhwysiant, ceisiwyd ystod eang o safbwyntiau ar draws Gwasanaeth Erlyn y Goron ar effeithiolrwydd y Cynllun Sicrhau Rhag Troseddau Casineb. Yn gyffredinol, roedd adborth a chefnogaeth cadarnhaol i'r cynllun. Roedd hefyd awydd clir i adolygu'r Cynllun er mwyn gwella rhagor ar y broses a sicrhau bod mwy o gydraddoldeb gyda'r Cynllun Sicrhau Rhag Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG). I'r perwyl hwn, yn 2017-18, cynhaliwyd adolygiad o'r Cynlluniau Sicrhau Rhag Trais yn erbyn Menywod a Merched a Throseddau Casineb er mwyn gweithredu Cynllun hyd yn oed cadarnach ar gyfer 2018-19.

Strategaeth Cynhwysiad ac Ymgysylltiad Cymunedol

Ym Mawrth 2018, cyhoeddwyd [y Strategaeth Cynhwysiad ac Ymgysylltiad Cymunedol](#), yn egluro sut ydym yn dwyn cymunedau i mewn i'n gwaith, yn sicrhau cynrychiolaeth amrywiol a sut y byddwn yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith mewn troseddau casineb. Datblygwyd y strategaeth yn dilyn Adolygiad Annibynnol yn 2017 o weithgarwch Cynhwysiad Gwasanaeth Erlyn y Goron. Cynhwysodd yr Adolygiad asesiad o farn rhanddeiliaid troseddau casineb, gan dynnu sylw at werth ymgysylltiad rhanddeiliaid wrth ddatblygu ein ffordd ni o weithredu'n erbyn troseddau casineb a'r angen i barhau i ymwneud â chymunedau. Rydym wedi ymrwymo i ddwyn cymunedau i mewn yn lleol trwy Banelau Craffu ac Ymgysylltiad Lleol ac yn genedlaethol trwy'r Panelau Craffu Cenedlaethol.

Sefydlwyd Panelau Craffu Cenedlaethol ar sail ad hoc yn 2013. Daw'r aelodaeth o randdeiliaid cymunedol sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn cefnogi dioddefwyr troseddau casineb, a'r rhai hynny sy'n ymchwilio i brofiad ac effaith troseddau casineb. Bu i'r adolygiad annibynnol gyfwrdd aelodau o'r Panel Craffu Cenedlaethol a dod i'r casgliad:

"Roedd canmoliaeth i'r gwaith yr oedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi'i wneud i ddiweddaru'r troseddau casineb hil a chrefydd a homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd a datganiadau ynghylch troseddau casineb anabledd sydd ' *bellach yn adlewyrchu bywydau pobl heddiw*'. Disgrifiwyd y gwaith hwn fel un oedd wedi ymestyn gwerth y panelau fel bod Gwasanaeth Erlyn y Goron bellach '*ar flaen y gad o ran gwaith gwneud polisïau effeithiol sy'n ymwneud â chymunedau*'.

Fel rhan o'i ymateb i'r Adolygiad Blynnyddol, ymrwymodd Gwasanaeth Erlyn y Goron i sefydlu Grŵp Ymgynghori Allanol Troseddau Casineb y bwriedir iddo fod yn weithredol o hydref 2018 ymlaen.

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi parhau i roi sylw i erlyn troseddau casineb sy'n ymwneud â defnyddio'r we, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, e-byst, negeseuon testun ac apiau ffonau clyfar. Yn 2017-18, erlynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron 6,029 o achosion dan adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac adran 1 Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988. Tynnwyd sylw bod 435 (7.2%) o'r rhain yn droseddau casineb. Mae hyn yn gynydd o 12.7% ar y flwyddyn flaenorol pan gafwyd 386 o droseddau.

Cyhoeddwyd datganiadau cyhoeddus diwygiedig Gwasanaeth Erlyn y Goron ar holl edefynnau troseddau casineb yn Awst 2017. Mae'r datganiadau'n cynnwys adran ar y cyfryngau cymdeithasol am y tro cyntaf ac yn ymrwmo i ymdrin â throseddau casineb ar-lein mor ddifrifol â throseddau casineb oddi ar-lein.

Mae adborth gan erlynwyr yn 2017-18 wedi arwain at ddiweddaru'r [canllawiau ar erlyn achosion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonwyd trwy'r cyfryngau cymdeithasol](#). Cyhoeddwyd y fersiwn derfynol yn Awst 2018 ac mae'n rhoi mwy o gymorth i erlynwyr yngylch troseddau casineb a gynhelir ar-lein.

Yn Nhachwedd 2017, ymatebodd Gwasanaeth Erlyn y Goron i ymgynghoriad a lansiwyd gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar eu Papur Gwyrdd Strategaeth Diogelwch ar y We. Roedd y Papur yn cynnwys cyfeiriad at ddaganiadau cyhoeddus ar droseddau casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ogystal ag at y canllawiau cyfreithiol ar erlyn troseddau'n ymwneud â chyfathrebiadau a anfonwyd trwy'r cyfryngau cymdeithasol oedd yn cydnabod pwysigrwydd ymrwymiad Gwasanaeth Erlyn y Goron i fynd i'r afael â throseddau ar-lein. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi parhau i ymwneud â'r gwaith hwn yn drawslywodraethol.

Yn 2017, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn falch ei fod wedi bod yn rhan o Grŵp Llywio Hyb Troseddau Casineb Ar-lein Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddau (MOPAC). Sefydlodd MOPAC dîm heddlu penodol oedd yn adeiladu capasiti technolegol a chymunedol i roi sylw i droseddau casineb a wneir trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â gweithio gyda chwmnïau cyfryngau cymdeithasol eu hunain. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn edrych ymlaen at barhau i gefnogi hyb cenedlaethol troseddau casineb ar-lein sydd wedi'i lansio gan y Swyddfa Cartref o ganlyniad i lwyddiant prosiect MOPAC.

Yn Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ei adroddiad ar Godi Ofn Mewn Bywyd Cyhoeddus. Canfu'r Pwyllgor mai'r defnydd eang a wnaed o'r cyfryngau cymdeithasol oedd y ffactor mwyaf arwyddocaol i gyflymu a galluogi ymddygiad o godi ofn yn y blynnyddoedd

diweddar. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod ymddygiad o'r fath yn cael effaith anghymesur o negyddol ar ferched; Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig, Lesbïaid, Hoywon, Pobl Ddeurywiol a Thrawsryweddol ac Ymgeiswyr Seneddol eraill o grwpiau lleiafrifol. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymrwymo i gefnogi Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn eu gwaith i gynhyrchu canllawiau hygyrch i ymgeiswyr Seneddol, gan roi cyngor clir ar ymddygiad y gallent ei ddisgwyl yn ystod ymgyrch sy'n debygol o fod yn drosedd a beth ddylent ei wneud yn wyneb y fath ymddygiad. Bydd gwaith ar hyn yn parhau yn 2018-19.

Casineb at Ferched a Throseddau Casineb

Mae ymchwilad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref ar Droseddau Casineb a'u Canlyniadau Treisgar wedi cymryd tystiolaeth ar gasineb at ferched ac mae'n debygol o wneud argymhellion i'w hystyried; argymhellion y bydd y Llywodraeth yn ymateb iddynt. Mae'r NPCC wedi cefnogi penderfyniad a wnaed yn drawslywodraethol

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ystyried rhoi sylw i gasineb at ferched o fewn fframwaith troseddau casineb a thrafod y mater gyda rhanddeiliaid Trais yn erbyn Menywod a Merched. Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhoi sylw i gasineb at ferched o fewn fframwaith Trais yn erbyn Menywod a Merched Gwasanaeth Erlyn y Goron ac yn ystyried mai hwn yw'r dull gweithredu mwyaf effeithiol. Mae'r strwythurau, y peirianwaith a'r arbenigedd sydd eisioes yno yn sail i roi sylw i unrhyw ymddygiad troseddol sy'n dangos casineb at ferched.

Am ragor o wybodaeth ar berfformiad Gwasanaeth Erlyn y Goron ar droseddau Trais yn erbyn Menywod a Merched, trowch at yr adroddiad ar Drais yn erbyn Menywod a Merched.

Crynodeb o Weithgarwch Gwasanaeth Erlyn y Goron

- Rhoddodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref i [droseddau casineb a'u canlyniadau treisgar](#). Yn ystod sesiwn o bron i ddwy awr, aeth y Cyfarwyddwr dros ystod o faterion yn ymwneud ag erlyn troseddau casineb. Siaradodd hefyd am bwysigrwydd ymgysylltiad cymunedol a'r ffaith fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio'n galed i ymgysylltu â chymunedau yn genedlaethol ac yn lleol. Canfu Adolygiad Lammy fod 'Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dangos arfer da mewn meysydd megis bod yn agored i graffu allanol, systemau o oruchwylio mewnol, ac amrywiaeth y gweithlu ehangach, y dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol ddysgu ohonynt'.
- Datblygwyd Rhestr Gwirio Tystiolaeth i'w chyflwyno i'r heddlu ochr yn ochr â phob ffeil y tynnwyd sylw ati fel trosedd casineb a gyflwynir ar gyfer cyhuddo, a hynny yn sgil cynllun gweithredu troseddau casineb 2016-17. Bydd y rhestr wirio'n cefnogi ansawdd ffeiliau gwell ac, yn y pen draw, ganlyniadau gwell i ddioddefwyr, trwy gynorthwyo swyddogion adrodd a cyfreithwyr derbyn i greu ffeiliau cyson yn amserol, gan ymdrin â thystiolaeth a gwybodaeth briodol ynghylch anghenion cefnogi. Cymeradwywyd y rhestr wirio gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ac mae trafodaethau gydag arweinyddion yr heddlu'n mynd rhagddynt ynghylch gweithredu'r rhain ar draws bob un o'r 42 o luoedd heddlu.
- [Cyhoeddwyd Strategaeth Troseddau Casineb 2017/20](#) ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron ym Mawrth 2018. Mae'r strategaeth yn fframwaith cyffredinol i roi sylw i droseddau sy'n cwrdd â diffiniad o drosedd casineb y cytunodd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a Gwasanaeth Erlyn y Goron arno. Mae wedi'i strwythuro o gylch pedwar piler Gweledigaeth 2020 Gwasanaeth Erlyn y Goron ac yn ymwneud â: Gwaith Achos Ansawdd Uchel; Gwella'n

Barhaus; a Llwyddiant ein Pobl ac mae'n eguro'r dull y byddwn yn ei ddefnyddio i fesur ein cyflawniadau.

- Yn ystod 2017-18, gweithiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ar ganllawiau i erlynwyr ar ddefnyddio Datganiadau Effaith ar Gymunedau mewn achosion o droseddau casineb. Gall yr ofn a'r diffyg diogelwch a deimlai dioddefwyr troseddau casineb gael effaith ymledol ar y gymuned ehangach, gan danseilio hyder a diogelwch pobl. Mae defnyddio Datganiad Effaith ar Gymunedau'n fodd i ddeall yn llwyr pa mor gyffredin yw'r troseddau hyn a'u heffaith ac mae'n rhoi llais i gymunedau yn y broses cyfiawnder troseddol. [Cyhoeddwyd](#) y canllawiau yn Awst 2018.

Ymgysylltiad Gwasanaeth Erlyn y Goron â phartneriaid

- Cynhaliwyd #Gwobrau Troseddau Casineb 2017 Rhif 2 yn Hydref 2017 i anrhydeddu'r rhai hynny sy'n ceisio rhoi sylw i annioddefgarwch a rhagfarn, sy'n cefnogi dioddefwyr a thystion ac sy'n hyrwyddo ymlyniad. Noddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y wobwr arbennig ar gyfer 'Cefnogi Dioddefwyr, Adrodd ar Droseddau Casineb' a ddyfarnwyd i Emma Roebuck sydd wedi gweithio ers sawl blwyddyn yn cefnogi aelodau o'r cymunedau LGBTQI yn County Durham a Darlington yn ogystal â gweithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol yn lleol ac yn genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o homoffobia a thrawsffobia ac effaith troseddau casineb ar unigolion LGBTQI
- Yn Awst 2017 cyhoeddwyd arweiniad i ddioddefwyr troseddau casineb gan yr Ymddiriedolaeth Diogelwch Cymunedol a Tell MAMA; dau sefydliad adrodd trydydd parti sydd wedi rhoi cefnogaeth fawr i ddioddefwyr troseddau casineb dros nifer o flynyddoedd. Mae'r arweiniad ar gyfer unrhyw gymuned sy'n profi trosedd casineb ac mae modd cael ato yma. Cefnogodd Gwasanaeth Erlyn y Goron waith datblygu'r arweiniad hwn gyda chyfraniad cyfreithiol a datganiad agoriadol gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.
- [Lansiwyd Cynllun Gweithredu 2016-2020 trawslywodraethol ar Droseddau Casineb \(Action against Hate\) yng Ngorffennaf 2016](#). Cyhoeddodd y Llywodraeth ddiweddariad hanner ffordd ar gyfer 2018 y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyfrannu cynnydd hyd yn hyn ato, yn cynnwys gweithredoedd sydd wedi'u cwblhau acymrwymiaid newydd yn adlewyrchu materion a blaenoriaethau sy'n dod i'r wyneb.

Y Camau Nesaf

- Parhai i adolygu polisiâu, canllawiau, hyfforddiant ac arfer gorau ar draws edefynnau sydd wedi'u monitro o droseddau casineb, gan bwysleisio'r angen i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y troseddwr a dangos dealltwriaeth briodol o anghenion dioddefwyr.
- Goruchwyllo erlynwyr troseddau casineb yn rheolaidd, a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ddwywaith y flwyddyn, trwy adolygu perfformiad gwaith achos Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rheolaidd.
- Sicrhau bod erlyniadau troseddau casineb yn dryloyw ac atebol trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol Troseddau Casineb Gwasanaeth erlyn y Goron.
- Rhoi sylw i ffyrdd gydag eraill yn y System Cyfiawnder Troseddol o wella faint o gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr Troseddau Casineb trwy'r broses cyfiawnder troseddol.

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio gwaith Gwasanaeth Erlyn y Goron ar droseddau casineb gan gynnwys cyfarfodydd chwarterol o Grŵp Ymgynghori Allanol sydd newydd ei sefydlu; a thrwy Panelau Craffu ac Ymgysylltiad Lleol sydd eisoes yn bodoli; Panelau Craffu Cenedlaethol; y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol a thrwy Rwydwaith Ardal y Rheolwr Cynhwysiad ac Ymgysylltiad Cymunedol.
- Gweithio gydag eraill yn y System Cyfiawnder Troseddol i sicrhau casglu data sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion, diffynyddion a chanlyniadau mewn erlyniadau troseddau casineb mewn modd cyson, cywir ac amserol.
- Gweithio gyda'r heddlu i wella gwaith ymchwilio i drosedd casineb ac adrodd arni.

Data Troseddau Casineb

Er gwaethaf cynnydd mewn adroddiadau o droseddau casineb fel a ddangosir gan [ffigurau'r Swyddfa Gartref](#), mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi nodi gostyngiad parhaus mewn derbyniadau'r heddlu. Dim ond achosion a cyfeirir ato gan yr Heddlu y gall Gwasanaeth Erlyn y Goron eu herlyn.

Diffinnir derbyniadau'r heddlu gan Wasanaeth Erlyn y Goron fel yr achosion hynny a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth gan yr heddlu am benderfyniad ynghylch cyhuddo, ac y tynnir sylw atynt fel trosedd casineb. Mae cyfeiriadau'r heddlu wedi eu cwblhau ac maent yn cynnwys achosion y mae cyfreithwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eu nodi fel troseddau casineb.

Yn sgil trafodaeth gyda'r NPCC, cynhaliwyd ymarfer asesu dan arweiniad yr heddlu yn chwarter 3 2017/18 ar draws sampl o luoedd yr oedd hyn yn cael effaith arnynt. Y nod oedd adnabod ac archwilio'r achosion a gofnodwyd fel troseddau casineb ond na chawsant eu cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer cyhuddiad Unwaith y bydd canlyniadau'r ymarfer asesu'n wybyddus, byddir yn cymryd camau ar y cyd i roi sylw i'r canfyddiadau.

Dengys y data mwyaf diweddar (2017/18) ostyngiad parhaus mewn derbyniadau o 4.4%. Roedd y gostyngiadau mwyaf sylweddol yn ystod 2017/18 yn: Swydd Stafford 39.0%; Gogledd Swydd Efrog 34.6%; De Cymru 25.8%; Swydd Derby 22.5% a Gorllewin Mersia 22.5%.

Roedd y gostyngiadau mwyaf sylweddol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn: Swydd Gaerhirfryn 51.3%; Heddlu Manceinion Fwyaf 45.6%; De Cymru 39.0%; Sussex 35.5% a Glannau Mersi 35.2%.



Mae'r rhan fwyaf o achosion y nodir fel achosion o droseddau casineb wedi eu gwaethygu oherwydd hil a chrefydd (84%), yna daw achosion homoffobaidd/deuffobaidd/trawsffobaidd (10.7%) a'r rhai hynny sy'n ymwneud â gelyniaeth oherwydd anabledd (5.3%) Mae cyfran y troseddau hiliol a chrefyddol a throseddau homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd sydd wedi eu herlyn wedi codi dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae cyfran y troseddau casineb anabledd wedi disgyn.

Yn 2017-18, roedd cynnydd bychan o 3.3% mewn cyfeiriadau terfynol yr heddlu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 13,086 i 13,518. Roedd gostyngiad yng nghyfran yr achosion a gyhuddwyd o 82.2% yn y flwyddyn flaenorol i 78.9%, gan arwain at 10,663 o rai dan amheuaeth yn cael eu cyhuddo.

Disgynodd swmp yr achosion y nodwyd fel troseddau casineb ac a gwblhawyd yn 2017-18 o 14,480 yn 2016-17 i 14,151. Mae hyn yn ostyngiad o 329 neu 2.3%.

Tabl 2: Erlyniadau troseddau casineb a gwblhawyd, yn ôl canlyniad

	2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%	Cyf	%
Euogfarnau	10,794	82.6%	11,915	84.7%	12,220	82.9%	12,846	83.2%	12,072	83.4%	11,987	84.7%
Euogfarnau aflwyddiannus	2,276	17.4%	2,159	15.3%	2,518	17.1%	2,596	16.8%	2,408	16.6%	2,164	15.3%
Cyfanswm	13,070		14,074		14,738		15,442		14,480		14,151	



- Syrthiodd swmp yr euogfarnau 0.7% o 12,072 yn 2016-17 i 11,987 yn 2017-18, gyda mymryn o gynnydd yng nghyfradd yr euogfarnau i 84.7%. Mae hyn yn cymharu gyda chyfradd gyfartalog Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer euogfarnau o 84.1% yn 2017-18.
- Mae cyfradd yr euogfarnau wedi codi o 82.0% yn 2008-09 i 84.7% yn 2017-18.

- Roedd 75.4% o euogfarnau oherwydd pleon euog sy'n dangos ansawdd ein gwaith achos ac erys cryfder tystiolaeth yn uchel. Mae hyn yn cymharu gyda chyfradd o 77.5% ar gyfer pleon euog ar draws yr holl droseddau.
- O'r holl erlyniadau y nodwyd fel troseddau casineb ac a heriwyd yn y treial (ac eithrio pleon cymysg⁸), cafodd 66.5% eu heuogfarnu. Mae hyn yn cymharu â chyfradd o 62.5% yn 2016-17 a chyda'r gyfradd gyffredinol ar gyfer yr holl droseddau o 60.1%
- Ni arweiniodd 2,164 o erlyniadau at euogfarn – 8.0% oherwydd i erlyniadau gael eu gollwng (yn cynnwys penderfyniadau i beidio â pharhau, tynnu'n ôl neu gynnig dim tystiolaeth), cwymp i lawr o 8.7% yn 2016–17.
- O'r holl achosion lle na chafwyd euogfarn, roedd 27.9% oherwydd materion ynghylch yr achwynnydd⁹, gostyngiad o 29.6% yn 2016-17. Mae hyn yn adlewyrchu'r camau a gymerwyd yn lleol i roi ar waith fesuriadau cefnogi hanfodol i ddioddefwyr.
- Yn 2017–18, roedd y cyfran o'r holl achosion lle na chafwyd euogfarn oherwydd barnu rhywun yn ddieuog ar ôl treial yn 26.7% (578) o'r holl achosion lle na chafwyd euogfarn, gostyngiad o 31.4% (756) yn 2016–17.
- Mae cynnydd mewn hyd dedfryd a gaiff ei chyhoeddi a'i chofnodi mewn achos o drosedd casineb sy'n arwain at euogfarn yn arwydd clir y caiff y gyfraith ei chymhwyso i'r perwyl gorau. Yn 2017–18, roedd 7,784 o achosion lle cyhoeddwyd a chofnodwyd dedfryd y cynyddwyd ei hyd (67.1%), cynnydd i fyny o 6,292 neu 53.5% yn 2016–17.
- Ar ddiwedd erlyniad, rhoddir categori prif drosedd i achosion i nodi math a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddygir. Dengys Tabl 3 isod mai troseddau yn erbyn y person a throseddau annhrefn cyhoeddus oedd y mwyaf cyffredin yn 2017-18, a hynny ar draws yr holl erlyniadau troseddau casineb dros y cyfnod adrodd, gyda'r gyfran uchaf mewn troseddau wedi eu gwaethygu oherwydd hil a chrefydd. Fodd bynnag, yng nghyd-destun troseddau casineb anabledd, mae'n ddiddorol y gall yr hyn a allai gael ei alw'n droseddu meddiangar fod yn fwy cyffredin na throseddau annhrefn cyhoeddus ac mae'r manylion i'w cael yn yr adran anabledd o'r adroddiad.

Tabl 3: Categori prif drosedd ar gyfer edefyn pob trosedd casineb

Prif Drosedd Categori	Anabledd		Homoffobaidd a Trawsfobaidd		Hiliol a Chrefyddol Gwaethygedig	
	2016–17	2017-18	2016–17	2017-18	2016–17	2017-18
Dynladdiad	0.7%	0.6%	0.1%	0.3%	0.0%	0.1%
Troseddau yn erbyn person	46.4%	48.1%	59.5%	56.2%	87.7%	86.8%
Troseddau rhyw	5.1%	3.2%	1.3%	0.6%	0.1%	0.1%
Bwrgleriaeth	7.3%	7.2%	0.1%	0.3%	0.3%	0.3%
Lladrad	7.5%	9.7%	1.4%	1.2%	0.3%	0.5%
Dwyn a thrafod	11.4%	8.0%	1.1%	1.7%	1.0%	1.1%
Twyll a ffugio	8.4%	9.3%	0.2%	0.2%	0.0%	0.1%

⁸Nid yw achosion diffynyddion lle cofnodir pleon 'dieuog' yn unig i'r holl gyhuddiadau yn cynnwys pleon cymysg, a cheir treial.

⁹Achosion lle na chafwyd euogfarn oherwydd i ddioddefwr dynnu'n ôl, fethu mynd i'r llys yn annisgwyl neu nid yw ei dystiolaeth yn cefnogi'r achos.

Difrod troseddol	2.1%	1.4%	3.3%	4.6%	2.5%	2.2%
Troseddau'n ymwneud â chyffuriau	0.3%	0.7%	1.4%	1.5%	0.5%	0.4%
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	9.1%	11.1%	30.6%	32.8%	7.1%	7.9%

Materion Cydraddoldeb

Mae rhywedd ac ethnigrwydd dioddefwyr wedi'u cofnodi gan yr Unedau Gofalu am Dystion ar y System Rheoli Tystion gan ddefnyddio'r data y mae disgwyl i'r heddlu eu rhoi yn unol â'r cytundebau cydgyssylltu a rennir. Adroddiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar rywedd ac ethnigrwydd, gan ddefnyddio data o'r System Rheoli Tystion.

Rhydd adroddiad Gwasanaeth Erlyn y Goron ar Droseddau Casineb fanylion nifer y dioddefwyr fesul rhywedd ac ethnigrwydd a'u cyfrannau, lle cofnodir mwy nag 80% o'r wybodaeth. Os na chaiff mwy na 20% o'r data eu cofnodi ystyrir nad yw'r data'n ddigon cadarn i adrodd ar y cyfrannau.

Yn 2016-17, dangosodd yr adroddiad ar Droseddau Casineb ostyngiad mewn cofnodi, neu mewn cofnodi gwael a pharhaus rhywedd ac ethnigrwydd dioddefwyr, ar draws nifer o edefynnau. O'r herwydd, nid oedd modd i Wasanaeth Erlyn y Goron adrodd ar gyfran dioddefwyr troseddau casineb fesul rhywedd na ethnigrwydd.

Cynhaliwyd trafodaethau gydag arweinydd yr NPCC ar droseddau casineb er mwyn cael egluthad am y gostyngiad hwn. Awgryma'r data o 2017-18 y bydd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau casglu a rhannu data cywir. Heb ddata cywir yn ymwneud â'r diffynyddion a'r dioddefwyr, mae gwaith deall troseddau casineb yn fwy anodd. Mae deall troseddau casineb, ei drwgweithredwyr a'i dioddefwyr yn ganolog i'n gallu i ddarparu strategaethau effeithiol mewn ymateb i anghenion y ddau.

Rhywedd

- Yn 2017-18, o'r 14,151 o ddiffynyddion a erlyniwyd, dynion oedd 11,632 o'r diffynyddion, roedd 2,501 yn fenywod ac mewn 18 o achosion, ni chofnodwyd y rhywedd. Lle cofnodwyd rhywedd ydiffynnydd, roedd 82.2% yn ddynion ac 17.7% yn fenywod, gostyngiad bach mewn diffynyddion benywaidd i lawr o 18.8% yn y flwyddyn flaenorol.
- Ar gyfer data dioddefwyr, cofnododd y System Rheoli Tystion 13,322 o ddioddefwyr. O'r holl ddioddefwyr, roedd 6,003 yn ddynion, 3,566 yn ferched ac, mewn 3,753 o achosion, ni chofnodwyd y rhywedd. Cynyddodd gwaith cofnodi rhywedd dioddefwyr rhyw fymryn o 70.7% yn 2016-17 i 71.9% ond, o'r herwydd, mae'n parhau i beidio â bod yn ddigon cadarn i gyfrifo cyfrannau fesul rhywedd yn gywir. Gan fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dibynnu ar wybodaeth am y dioddefwyr a gasglwyd gan yr heddlu a'i phasio ymlaen ganddynt, byddir yn ceisio rhagor o weithredoedd ar y cyd i sicrhau bod gwaith rhywedd yn cael ei gofnodi'n fwy cadarn.

Ethnigrwydd

- Yn 2017-18, cafodd 64.5% o ddiffynyddion mewn achosion y nodwyd fel troseddau casineb eu categoreiddio fel Gwyn (i lawr o 68.4% yn 2016-17), gyda 58.4% yn cael eu hadnabod yn perthyn i'r categori Gwyn Prydeinig. Adnabuwyd 7.1% o ddiffynyddion fel Du, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol ac adnabuwud 4.9% fel Asiaidd, i lawr fymryn o 5.3% y flwyddyn flaenorol.¹⁰

¹⁰Ni ddatganodd 11.4% o ddiffynyddion ethnigrwydd pan gawsant eu harestio (i fyny 2.2 pwynt canran ers 2016-17) ac ni roes yr heddlu ethnigrwydd 8.9% o ddiffynyddion i Wasanaeth Erlyn y Goron (i fyny 2.1 pwynt canran ers 2016-17).

- Mae ychydig dan hanner o ethnigrwydd dioddefwyr yn parhau heb ei gofnodi ac, o'r herwydd, nid yw'r data wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Gan fod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dibynnu ar wybodaeth am y dioddefwyr a gasglwyd gan yr heddlu a'i phasio ymlaen ganddynt, byddir yn ceisio rhagor o weithredoedd ar y cyd i sicrhau bod gwaith rhywedd yn cael ei gofnodi'n fwy cadarn.

Oedran

- O'r diffynyddion hynny lle cofnodwyd oedran, roedd y rhan fwyaf o'r diffynyddion yn 25–59 (70.7%) a 18–24 (18.1%) oed. Roedd 25.1% o'r diffynyddion (3,548) yn 24 oed neu'n iau, gyda 841 (5.9%) o ddiffynyddion yn 14–17 blwydd oed a 152 (1.1%) yn 10–13 oed.
- O'r dioddefwyr hynny lle cofnodwyd oedran¹¹, roedd y rhan fwyaf yn 25–59 (76.6%) a 18–24 oed (14.0%). Roedd 17.6% o dioddefwyr (2,184) yn 24 blwydd oed neu'n iau, gyda 332 (2.7%) o ddioddefwyr yn 14–17 blwydd oed, 114 (0.9%) yn 10–13 oed a 7 dan 10 oed (0.1%).

¹¹Cofnodwyd oedran 92.9% o ddioddefwyr yn 2017-18 - i fyny o 90.6% yn 2016-17.

Hil a Chrefydd

Cyflwyniad

Dechreuwyd cofnodi troseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hil a chrefydd ar wahân yn 2010-11. Cyn hynny, roedd y data wedi'i gyfuno. Gall achosion gael eu llumanu yn awr ar system reoli achosion ddigidol y CPS yn achosion wedi eu gwaethygu gan hil, neu grefydd neu, pan fydd tystiolaeth addas yn bodoli, y ddau. Mae dynodi ac asesu'r dystiolaeth am elyniaeth sydd ar gael yn gywir mewn cefnogaeth o un gwedd o elyniaeth neu un arall yn parhau i fod yn her. Er enghraifft, gall cyflawnwyr fod yn anymwybodol o hunaniaeth go iawn y dioddefwr (wyr) unigol a defnyddio iaith a all fod yn aneglur. Mae Erlynwyr yn ymroeddedig at fod mor gywir â phosib mewn pob erlyniad ac yn y dadleuon a gyflwynir i'r llys mewn cefnogaeth.

Mae deddfwriaeth a chyfraith achosion yn dod â dealltwriaeth well am elyniaeth hiliol a chrefyddol. Gall Siciaid ac Iddewon, er enghraifft, ddod o dan y categori hil a chrefydd yn dibynnu ar fanylion y trosedd. Gall gelyniaeth grefyddol hefyd gynnwys sectau gwahanol o fewn crefydd, pobl nad ydynt yn arddel crefydd neu gred, gelyniaeth sectyddol a gelyniaeth tuag at droedigion ac apostataid. Gall gelyniaeth ar sail hil hefyd gynnwys Sipsiwn a rhai Teithwyr, ffoaduriaid neu geiswyr lloches neu eraill o leiafrifoedd llai gweladwy.

Crynodeb o waith y CPS

Terfynwyd y cynllun gweithredu i gyfeirio troseddau casineb a geir effaith ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT) dros y flwyddyn adrodd. Datblygwyd y cynllun gyda chefnogaeth y Panel Craffu Cenedlaethol a arweiniodd at lunio cyfarwyddyd gweithredol ar gyfer erlynwyr am sut i gydnabod ac ymdrin ag achosion o'r fath. Cyflawnwyd gwaith heffyd i gysylltu aelodau'r gymuned ag Ardaloedd CPS lleol i hyrwyddo perthnasau gweithio ac i wella ymwybyddiaeth am sut mae'r gyfraith am droseddau casineb yn gweithio. Bydd ymrwymiad parhaus i gefnogi'r cymunedau hyn yn cynnwys trafodaeth gyfredol gydag arweinydd y NPCC ar GRT a chynhelir gweithdy am fframwaith cyfreithiol troseddau casineb yn hwyr yn 2018 ar gyfer aelodau'r Panel a ddarperir cefnogaeth i ddioddefwyr troseddau casineb.

Cyhoeddodd y CPS gyfarwyddyd mewnol ar gyfer erlynwyr ynglŷn â gwersi ymarfer a'r profiadau cyfredol o ymdrin â throseddau casineb a gyfeirir at gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cynnwys gwybodaeth am y natur newydd o droseddau casineb sy'n cael effaith ar y cymunedau hyn a datblygwyd y cyfarwyddyd gyda mewnbwn rhanddeiliaid. Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd y CPS ddiwygio dau nodyn cyfarwyddyd ychwanegol yn cynnwys gelyniaeth wrth-Semitaeth a gwrth-Fwslimiaeth gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Ddiogelwch Gymunedol a Tell MAMA.


Data

- Cynyddodd y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu am droseddau casineb wedi eu gwaethygu gan hil a chrefydd ychydig o 10,706 yn 2016-17 i 11,200 yn 2017-18 - cynnydd o 494 atgyfeiriad (4.6%). O'r atgyfeiriadau hyn, cyhuddwyd 79.6% (o'i gymharu â 83.0% y flwyddyn flaenorol) a arweiniodd at 8,913 drwgdybyn yn cael eu cyhuddo (cynnydd o 0.2% o 2016-17).

- Gostyngodd y nifer o erlyniadau¹² a gwblhawyd o 12,004 in 2016-17 i 11,881 yn 2017-18, gostyngiad o 123 diffynnydd (1.0%).
- Mae amrywiadau rhwng troseddau casineb wedi eu gwaethgu gan hil a chrefydd a amlinellir yn yr adrannau isod.


Tabl 5: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad ar gyfer troseddau a waethgwyd gan hil a chrefydd

	2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	9,415	83.1%	10,532	85.2%	10,680	83.5%	10,920	83.8%	10,061	83.8%	10,141	85.4%
Euogfarnau aflwyddiannus	1,919	16.9%	1,836	14.8%	2,115	16.5%	2,112	16.2%	1,943	16.2%	1,740	14.6%
Cyfanswm	11,334		12,368		12,795		13,032		12,004		11881	



¹²Noder:mae'r nifer o ddiffynnyddion a gyhuddir yn cynnwys yr achosion rhain, yn ôl drwgdybn,a anfonodd ymlaeni'r CPS yn ystod 2016-17 am benderfyniadau cyhuddo ac felly nid yw'r rhif yn uniongyrchol cymaradwy â'r niferoedd rhai a erlynir sy'n cynnwys achosion, yn ôl diffynnydd, wedi'i derfynu yn ystod 106-17.

Y % o Euogfarnau o'r Cyfanswm Troseddau Hil a Chrefyddol



- Cynyddodd y nifer o euogfarnau o 10,061 yn 2016-17 i 10,141 yn 2017-18, cynnydd o 80 collfarn (0.8%). Gwellodd y cyfraddau euogfarnu i 85.4% yn 2017-18, o gymharu â 83.8% yn 2016-17. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd cyfun ar gyfer holl euogfarnau'r CPS a oedd yn 84.1% yn 2017-18.
- Yn 2017-18, gwellodd y nifer o bleon euog i 76.1% o'i gymharu â 74.0% yn 2015-16. Roedd hefyd 68.3% o euogfarnau, o'r holl erlyniadau a lumanwyd yn droseddau a waethygydd gan hil a chrefydd a heriwyd mewn treial (ac eithrio pleon cymysg), o'i gymharu â 62.5% y flwyddyn flaenorol¹³.
- Yn 2017-18, roedd y gyfran o euogfarnau a fu'n aflwyddiannus oherwydd materion achwynwyr yn 27.4% (477), gwelliant ar y ffigwr o 30.2% (586) yn 2016-17.
- Yn 2017-18, roedd y gyfran o euogfarnau a fu'n aflwyddiannus oherwydd rhyddfarniad ar ôl treial yn 25.7% (447), gwelliant ar y ffigwr o 32.0% (621) yn 2016-17.
- Yn 2017-18, roedd 6,864 o ddedfrydau wedi eu dwysau a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd (69.9%), cynnydd ar y nifer o 5,599 (57.0%) agofnodwyd yn 2016-17.

Materion cydraddoldeb

Rhyw

- Yn 2017-18 o'r 11,881 o ddiffynnyddion a erlynwyd, roedd 9,761 yn ddynion, ac 2,104 yn fenywod. Roedd 16 achos lle na chofnodwyd rhyw. Mewn achosion lle chofnodwyd rhyw y diffynnydd, roedd 82.2% yn ddynion ac 17.7% yn fenywod, ychydig o ostyngiad mewn diffynnyddion menywod o 18.2% y flwyddyn flaenorol.
- O ran data dioddefwyr, cofnodwyd 11,147 o ddioddefwyr gan y System Reoli Tystion. O ran yr holl dioddefwyr, roedd 5,032 yn ddynion, ac 2,816 yn fenywod. Ni chofnodwyd rhyw 3,299 o

¹³ Mae 'ac eithrio pleon cymysg' yn achosion diffynnyddion lle cyflwynir pleon 'dieuog' yn unig ar gyfer pob cyhuddiad a dilynai treial fel canlyniad.

ddioddefwyr. Gwellodd gofnodi rhyw y dioddefwr o 69.3% yn 2016-17 i 70.4% ac felly nad yw'n ddigon cadarn i gyfrif cyfrannau yn ôl rhyw yn gywir.

Ethnigrwydd

- Yn 2017-18, roedd 64.4% o ddiffynyddion mewn achosion troseddau a waethygydd gan hil a chrefydd yn Wyn (gostyngiad o'r ffigwr 68.0% yn 2016-17), roedd 57.9% wedi'i ddynodi yn y categori Gwyn Prydeinig. Dynodwyd 7.2% o ddiffynyddion yn Ddu, yr un nifer â 2016-17 a dynodwyd 5.1% yn Asiaidd, ychydig o ostyngiad o 5.7% yn y flwyddyn flaenorol¹⁴.
- Ni chofnodir fwy na hanner y data o ran ethnigrwydd y dioddefwr ac felly ni chynhwysir y data yn yr adroddiad hwn.

Oedran

- O ran y diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran, roedd y mwyafrif o ddiffynyddion yn 25-59 oed (71.1%) a 18-24 oed (17.7%). Roedd 24.4% o'r diffynyddion (2,902) yn 24 oed neu'n iau; roedd 679 (5.7%) o'r diffynyddion yn 14-17 oed ac roedd 121 (1.0%) yn 10-13 oed.
- O ran y dioddefwyr y cofnodwyd eu hoedran, roedd y mwyafrif yn 25-59 (78.4%) a 18-24 (13.3%). Roedd 16.7% o'r dioddefwyr (1,732) yn 24 oed neu'n iau; roedd 262 (2.5%) o'r dioddefwyr yn 14-17 oed, roedd 92 (0.9%) yn 10-13 oed ac roedd 3 yn iau na 10 oed (0.0%).



Troseddau a waethygydd gan hil

- Yn 2017-18, roedd ychydig o gynnydd o 2.7% yn y nifer o atgyfeiriadau terfynol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 10,198 i 10,472. Roedd gostyngiad yn y nifer o achosion a gyhuddwyd o 83.0% i 79.7%, a arweiniodd at 8,342 drwgdybn yn cael eu cyhuddo.
- Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd o 11,411 yn 2016-17 i 11,061 yn 2017-18. Dengys hyn ostyngiad o 350 neu 3.1%.

Tabl 6: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad am droseddau a waethygydd gan hil

	2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	9,107	83.3%	10,069	85.2%	10,123	83.5%	10,337	84.1%	9,583	84.0%	9,450	85.4%
Euogfarnau aflwyddiannus	1,828	16.7%	1,749	14.8%	2,007	16.5%	1,958	15.9%	1,828	16.0%	1,611	14.6%
Cyfanswm	10,935		11,818		12,130		12,295		11,411		11,061	

¹⁴ Ni ddatganodd 11.4% o ddiffynyddion eu hethnigrwydd ar arestiad (cynnydd o 2.1ppt ers 2016-17) ac ni ddarparodd yr heddlu ethnigrwydd am 8.7% o ddiffynyddion i'r CPS (cynnydd o 2.0 ppt ers 2016-17).



- Gostyngodd y nifer o euogfarnau 1.4% o 9,583 yn 2016-17 i 9,450 yn 2017-18, gyda'r gyfradd euogfarnu yn gwella i 85.4%.
- Mae'r gyfradd euogfarnu wedi cynyddu o 84.0% yn 2016-17 i 85.4% yn 2017-18.
- Roedd 76.4% o euogfarnau yn bleon euog a euogfarnwyd 68.3% o'r holl erlyniadau a waethygyd gan hil a heriwyd mewn treial (ac eithrio pleon cymysg), o'i gymharu â 62.6% yn 2016-17.
- Roedd 1,611 o erlyniadau aflwyddiannus, roedd 7.5% oherwydd i'r erlyniadau gael ei gollwng (gan gynnwys penderfyniadau i derfynu, tynnu'n ôl neu gynnig dim tystiolaeth), gostyngiad o 8.0% yn 2016-17.
- O ran y nifer o euogfarnau aflwyddiannus, roedd 27.6% oherwydd materion achwynwyr, gostyngiad o 30.4% yn 2016-17.


- Yn 2017-18, dangosodd y gyfran o euogfarnau a fu'n aflwyddiannus oherwydd rhyddfarniad ar ôl treial yn 25.3% (408) o'r holl euogfarnau aflwyddiannus, gostyngiad o 32.0% (585) yn 2016-17.
- Yn 2017-18, roedd dedfrydau wedi eu dwysau a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd mewn 69.9% o achosion, cynnydd o 57.0% yn 2016-17.


Troseddau a waethygydd gan grefydd

- Yn 2017-18, roedd cynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau terfynol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 508 i 728, cynnydd o 43.3%. Roedd gostyngiad yn y nifer o achosion a gyhuddwyd o 83.1% yn y flwyddyn flaenorol i 78.4%, a arweiniodd at 571 drwgdybn yn cael eu cyhuddo (cynnydd o 149 drwgdybn o 2016-17).
- Cynyddodd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd a llymwyd fel troseddau a waethygydd gan grefydd o 593 yn 2016-17 i 820 yn 2017-18. Dengys hyn gynnydd o 227 neu 38.3%,

Tabl 7: Erlyniadau a gwblhawyd yn ôl canlyniad ar gyfer troseddau a waethygydd gan grefydd

	2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	308	77.2%	463	84.2%	557	83.8%	583	79.1%	478	80.6%	691	84.3%
Euogfarnau aflwyddiannus	91	22.8%	87	15.8%	108	16.2%	154	20.9%	115	19.4%	129	15.7%
Cyfanswm	399		550		665		737		593		820	





- Cynyddodd y nifer o euogfarnau yn 44.6% i 691 yn 2017-18 o 478 yn 2016-17, gyda chyfradd euogfarnu gynyddol o 84.3%, wedi'i gynyddu o 80.6% yn 2016-17.
- Roedd 72.8%o euogfarnau yn bleon euog a euogfarnwyd 68.1% o'r holl erlyniadau a heriwyd mewn treial (ac eithrio pleon cymysg), o'i gymharu â 61.6% y flwyddyn flaenorol.
- Roedd y gyfran o achosion a fethodd oherwydd materion achwynwyr yn cyfrif am 26.1% (30%) o'r holl euogfarnau aflwyddiannus yn 2016-17. Yn 2017-18, roedd y nifer wedi'i ostwng i 24.8% (32). Mae angen ystyriaeth ofalus wrth ymdrin â niferoedd bychain fel rhain.
- Yn 2017-18, cynrychiolodd y gyfran o euogfarnau a fu'n aflwyddiannus oherwydd rhyddfarniad ar ôl treial 30.2% (39) o'r holl euogfarnau aflwyddiannus, sef gostyngiad o 31.3% (36) yn 2016-17.
- Yn 2017-18, roedd y gyfran o achosion a waethygydd gan grefydd a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd wedi'i dwysau a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd yn 69.2%, cynnydd o 57.0% yn 2016-17.

Troseddau Homoffobaidd, Biffobaidd a Thrawsffobaidd

Cyflwyniad

Cyfrannodd y CPS ddiweddariad fel rhan o'r Cynllun Gweithredu LGBT [Swyddfa Gydraddoldeb y Llywodraeth](#) yn cynnwys ystod eang o sectorau; addysg, iechyd, diogelwch, cyflogaeth, rhyngwladol a bywyd yn y DU. Yn ychwanegol, cyfrannodd y CPS nifer o ymrwymadau ar gyfer y cynllun gweithredu newydd.

Crynodeb o waith y CPS

Gwelwyd y cam terfynol o raglen hyfforddi tair blynedd am erlyn troseddau casineb yn 2017-18. Canolbwyntiodd y pecyn hyfforddi gorfodol hwn ar elyniaeth ar sail cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Roedd cynrychiolwyr o Stonewall a Galop yn aelodau'r bwrdd hyfforddi oedd yn datblygu'r pecyn. Roedd modd iddynt roi goleuni ar y profiadau a welwyd mewn cymunedau a chynlluniwyd yr astudiaethau achos a ddefnyddiwyd o fewn y pecyn hyfforddiant i adlewyrchu themâu sy'n codi yn aml yn y math hwn o droseddau casineb.

Datblygwyd DVD lle mae cynrychiolwyr o Stonewall a Galop yn darparu manylion am y ffyrdd y mae pobl yn cael eu hunaniaeth eu hunain, y rhwystrau i gyfiawnder a all ddod i'w rhan a sut gallai erlynwyr wella'r broses mewn llys ar gyfer dioddefwyr a thystion.

Yn Ionawr 2018, penodwyd Panel Craffu Cenedlaethol gyda'r nod o gynorthwyo â diwygio'r ddogfen Cyfarwyddyd Rheoli Cydraddoldeb Trawsrywedol (TEMG). Cyhoeddwyd hyn yn gyntaf yn 2006 a diwygiwyd wedyn yn Chwefror 2014 gyda chefnogaeth is-grŵp y Fforwm Atebolrwydd Cymunedol.

Gwnaeth y cyfarwyddyd geisio cynorthwyo rheolwyr ag awgrymiadau ar gyfer arferion da yn cynnwys cyflogaeth, ymgysylltu cymunedol ac erlyniad yn ogystal â rhestr o gysylltiadau o fewn y CPS a rhanddeiliaid cymunedol perthnasol, llawer ohonynt a gyfrannodd at ddatblygu'r cyfarwyddyd.

Pwrpas y Panel Craffu Cenedlaethol oedd i adolygu'r cyfarwyddyd a chynhwysodd gynrychiolwyr o Stonewall, Galop, GIRES, a:gender, Mermaids, LSIPs Ardaloedd CPS ac academyddion. Roedd aelodau'r NSP yn meddwl bod y TEMG gwreiddiol wedi torri tir ond nid oes diben iddi bellach. Credodd aelodau'r Panel y byddai dogfen fyrrach wedi'i thargedu at gymunedau eu hunain yn llawer mwy effeithiol. Cyflwynwyd drafft yn fewnol a'i rannu ar gyfer sylwadau gyda'r NSP. Mae'r CPS yn disgwyl lansio'r dogfennau diwygiedig yn hydref 2018.

Data


Noder: Nid oedd data perfformiad y CPS am Dueddfryd Rhywiol a Hunaniaeth Drawsrywiol yn cael ei adrodd ar wahân cyn 2012 pan newidwyd y gyfraith i gynnwys troseddau casineb trawsffobaidd.


- Cynyddodd y nifer o achosion a lumanwyd fel atgyfeiriadau troseddau casineb homoffobaidd, biffobaidd a thrawsffobaidd gan yr heddlu i 1,564 o'i gymharu â 1,392 yn 2016-17 - cynnydd o 172 atgyfeiriad (12.4%). O'r rhain, cyhuddwyd 77.9% (o'i gymharu â 78.3% yn y flwyddyn flaenorol) a arweiniodd at 1,219 drwgdybyn yn cael eu cyhuddo (cynnydd o 11.8% o 2016-17).

- Serch hynny, roedd gwahaniaeth rhwng troseddau casineb homoffobaidd a throseddau trawsffobaidd - gyda chynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau yn y ddau fath o drosedd casineb ond ychydig o ostyngiad yn y nifer o ddiffynnyddion a gyhuddwyd am droseddau casineb trawsffobaidd, a amlinellir yn yr adrannau isod. Serch hynny, mae angen bod yn ofalus wrth ymdrin â niferoedd mor isel â'r rhain.
- Cynyddodd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd a llumanwyd fel troseddau casineb homoffobaidd, biffobaidd a thrawsffobaidd yn 3.5% o 1,467 yn 2016-17 i 1,518 yn 2017-18.

Tabl 8: Erlyniadau a gwblhawyd fesul canlyniad ar gyfer troseddau homoffobaidd a thrawsffobaidd

	2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	885	80.7%	913	80.7%	1,037	81.2%	1,219	83.0%	1,211	82.5%	1,282	84.5%
Euogfarnau aflwyddiannus	211	19.3%	219	19.3%	240	18.8%	250	17.0%	256	17.5%	236	15.5%
Cyfanswm	1,096		1,132		1,277		1,469		1,467		1,518	





- Cododd y nifer o euogfarnau ychydig o 1,211 yn 2016-17 i 1,282 yn 2017-18, cynnydd o 71 euogfarn (5.9%). Cododd y gyfradd euogfarnu ychydig o 82.5% yn 2016-17 i 84.5% yn 2017-18.
- Yn 2017-18, cynyddodd y nifer o bleon euog i 74.5%. Roedd hefyd 64.7% o euogfarnau, o'r holl erlyniadau a lumanwyd yn droseddau casineb homofffobaidd, biffobaidd a thrawsffobaidd a heriwyd mewn treial (ac eithrio pleon cymysg¹⁵) o'i gymharu â 62.7% yn 2016-17.
- Yn 2017-18, roedd y gyfran o euogfarnau a fu'n aflwyddiannus oherwydd materion dioddefwyr yn 32.2% (76) a fu'n weddol gyson gyda'r ffigwr o 2016-17 a fu 32.0% (82).
- Yn 2017-18, cynyddodd y gyfran o euogfarnau a fu'n aflwyddiannus oherwydd rhyddfarniad ar ôl treial tra arhosodd y nifer o achosion a effeithiwyd yr un peth o 27.7% (71) yn 2016-17 i 30.1% (71) yn 2017-18.
- Yn 2017-18, roedd 787 neu 63.8% o ddedfrydau wedi eu dwysau a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd, cynnydd ar y nifer o 577 neu 48.9% yn 2016-17.

Materion cydraddoldeb

Rhyw

- Yn 2017-18, o'r 1,518 o ddiffynnyddion a erlynwyd, roedd 1,311 yn ddynion, ac 205 yn fenywod. Roedd dau achos lle na chofnodwyd rhyw. Mewn achosion lle cofnodwyd rhyw y diffynnydd, roedd 86.4% yn ddynion ac 13.5% yn fenywod, ychydig o ostyngiad mewn diffynnyddion menywod o 17.0% y flwyddyn flaenorol.
- O ran data dioddefwyr, cofnodwyd 1,467 o ddioddefwyr gan y System Reoli Tystion. O ran yr holl ddioddefwyr, roedd 655 (44.6%) yn ddynion ac 482 (32.9%) yn fenywod. Ni chofnodwyd rhyw mewn 330 achos (22.5%). Gwellodd gofnodi rhyw y dioddefwr ychydig o 76.8% yn 2016-17 i 77.5% yn 2017-18 ac felly nid yw'n ddigon cadarn i gyfrif cyfrannau yn ôl rhyw yn gywir. Yn 2017-18, ystyrir camau i sicrhau cofnodi mwy gadarn o ryw.

¹⁵ Mae 'ac eithrio pleon cymysg' yn achosion diffynnyddion lle cyflwynir pleon 'dieuog' yn unig ar gyfer pob cyhuddiad a dilynai treial fel canlyniad.

Ethnigrwydd

- Yn 2017-18, roedd 63.0% o ddifynyddion mewn achosion a lumanwyd yn droseddau homoffobaidd, biffobaidd a thrawsffobaidd yn Wyn (gostyngiad o'r ffigwr 68.2% yn 2016-17), roedd 58.6% wedi'i ddynodi yn y categori Gwyn Prydeinig. Dynodwyd 7.6% o ddifynyddion yn Ddu, o'i gymharu â 7.0% y flwyddyn flaenorol a dynodwyd 4.2% yn Asiaidd, ychydig o gynnydd o 3.7% y flwyddyn flaenorol.
- Ni chofnodir fwy na hanner y data o ran ethnigrwydd y dioddefwr ac felly ni chynhwysir y data yn yr adroddiad hwn.

Oedran

- O ran y diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran, roedd y mwyafrif yn 25-59 oed (69.2%) a 18-24 (20.6%). Roedd 27.7% o'r diffynyddion (420) yn 24 oed neu'n iau, roedd 89 (5.9%) yn 14-17, roedd 18 (1.2%) yn 10-13 a doedd neb yn iau na 10 oed.
- O ran y dioddefwyr y cofnodwyd eu hoedran, roedd y mwyafrif yn 25-59 oed (71.6%) a 18-24 (21.0%). Roedd 24.5% o ddioddefwyr (338) yn 24 oed neu'n iau, roedd 40 (2.9%) yn 14-17, roedd 7 (0.5%) yn 10-13 ac roedd 1 yn iau na 10 oed (0.1%).

Troseddau casineb trawsffobaidd

- Yn 2017-18, roedd ychydig o gynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau terfynol gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 87 i 92. Roedd ychydig o ostyngiad yn y nifer o achosion a gyhuddwyd o 66 (75.9%) yn 2016-17 i 64 (69.6%) yn 2017-18.
- Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd a lumanwyd yn droseddau trawsffobaidd o 92 yn 2016-17 i 82 yn 2017-18. Dengys hyn ostyngiad o 10.9%.
- Roedd y cyfraddau euogfarnu am droseddau trawsffobaidd yn 76.8% (neu 63 euogfarn) yn 2017-18 a 72.8% (neu 67 euogfarn) yn 2016-17. Gwelwyd pleon euog mewn 67.1% o achosion (neu 55 achos) yn 2017-18 a 60.9% o achosion (neu 56 achos) yn 2016-17.
- Roedd y gyfran o achosion a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd wedi'i dwysau a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd yn 58.1% yn 2017-18, cynnydd o 53.8% yn 2016-17.
- Roedd pedwar achos o euogfarnu aflwyddiannus oherwydd materion achwynwyr yn 2017-18 ac roedd pum achos yn 2016-17.
- Roedd wyth erlyniad a arweiniodd at ryddfarniad ar ôl treial yn 2017-18 ac roedd naw erlyniad yn 2016-17.

Materion cydraddoldeb

- O ran diffynyddion mewn achosion trawsffobaidd yn 2017-18, roedd 64 (78.0%) yn ddynion ac 18 (22.0%) yn fenywod. Cofnodwyd rhyw mewn pob achos. Yn 2016-17, roedd 72 o ddifynyddion yn ddynion (78.3%) a 20 (21.7%) yn fenywod. Cofnodwyd rhyw mewn pob achos.

- O ran data dioddefwyr, cofnodwyd 85 o ddioddefwyr gan y System Reoli Tystion. O'r holl ddioddefwyr, roedd 41 yn fenywod a 25 yn ddynion. Ni chofnodwyd rhyw ar gyfer 19 dioddefwr. Nid yw cofnodi rhyw 77.6% o ddioddefwyr yn ddigon cadarn eto i gynnwys cyfrannau rhyw yn yr adroddiad hwn.

Troseddau casineb homoffobaidd

- Yn 2017-18, roedd cynnydd o 12.8% yn y nifer o atgyfeiriadau terfynol gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 1,305 i 1,472. O'r atgyfeiriadau hyn, cyhuddwyd 1,155 diffynnydd, cynnydd o 1,024 y flwyddyn flaenorol.
- Cynyddodd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd a lumanwyd yn droseddau casineb homoffobaidd o 1,375 yn 2016-17 i 1,436 yn 2017-18. Dengys hyn gynnydd o 61 neu 4.4%.
- Cynyddodd y gyfran euogfarnu yn 2017-18 i 84.9% (1,219 euogfarn) o 83.2% (1,144) yn 2016-17. Gwelwyd pleon euog mewn 74.9% o euogfarnau yn 2017-18 ac mewn 73.3% o euogfarnau yn 2016-17.
- Roedd y gyfran o droseddau homoffobaidd a gofnodwyd yn euogfarnau aflwyddiannus oherwydd materion achwynwyr yn 33.2% (72) yn 2017-18 a 33.3% (77) yn 2016-17.
- Yn 2017-18, roedd yr erlyniadau a arweiniodd at ryddfarniad ar ôl treial yn cyfrif am 29.0% yr holl euogfarnau aflwyddiannus. Yn 2016-17, roedd y ffigwr hwn yn 26.8%.
- Yn 2017-18, roedd y gyfran o achosion troseddau casineb homoffobaidd a arweiniodd at euogfarn gyda dedfryd wedi'i dwysau a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd yn 64.1%, cynnydd o 48.6% yn 2016-17.

Materion cydraddoldeb

- O'r 1,436 o ddiffynnyddion a erlynwyd, roedd 1,247 yn ddynion a 187 yn fenywod. Ni chofnodwyd rhyw mewn dau achos. Yn 2016-17, pan gofnodwyd rhyw y diffynnydd, roedd 83.2% yn ddynion ac 16.7% yn fenywod.
- O ran data dioddefwyr, cofnodwyd 1,382 o ddioddefwyr gan y System Reoli Tystion. O'r holl ddioddefwyr, roedd 630 yn ddynion a 441 yn fenywod. Ni chofnodwyd rhyw mewn 311 achos. Gostygodd y nifer ar gyfer cofnodi rhyw ychydig o 77.6% yn 2016-17 i 77.5% ac felly nid yw'n ddigon cadarn o hyd i gyfrif cyfrannau yn ôl rhyw yn gywir. Mae'r CPS yn ddibynnol ar wybodaeth dioddefwyr a gasglwyd gan yr heddlu, felly ystyrir camau ar y cyd i sicrhau bod rhyw yn cael ei gofnodi yn fwy cadarn.

Troseddau Casineb Anabledd

Cyflwyniad

Cyflawnwyd arolygiad thematig ar y cyd gan HMCPSI a HMICFRS am droseddau casineb anabledd ar ddechrau'r flwyddyn 2018. Canolbwyntiodd yr arolygiad ar welliannau ers yr adolygiad thematig diwethaf ar y cyd yn 2015.

"Ers hynny (2015), mae ymgyrch cynaliadwy wedi bod mewn lle gan y CPS i godi ymwybyddiaeth a dynodi'r achosion hyn gan sicrhau y cofnodir hwy ar y system. Mae Cydlynwyr Troseddau Casineb Ardaloedd (HCCs) bellach yn cyflawni gwiriadau sicrwydd ansawdd o achosion troseddau casineb anabledd, ac roedd arolygwyr yn edmygu'r defnydd o roi adborth i staff, yn enwedig ar y defnydd o a1456 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mae'r elfennau a welwyd fel ymarfer da yn ein hadroddiad yn 2015 yn cael eu gweithredu bellach."

Mae'r CPS wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad ac yn gweithio ar y cyd gydag arweinydd y NPCC ar droseddau casineb i sicrhau bod camau gwella yn cael eu hymgyrdd ar draws yr archwiliad ac erlyniad o droseddau casineb anabledd.

Crynodeb o waith y CPS

Mae'r datganiad cyhoeddus am droseddau casineb anabledd a throseddau yn erbyn pobl hŷn yn ei wneud yn glir bod y CPS yn cydnabod y model cymdeithasol o anabledd a gwerth y dull o ran dynodi a chael gwared o'r rhwystrau er mwyn rhoi cydraddoldeb i bawb. Cytunwyd ar y dull yn gyntaf o fewn cyd-destun troseddau casineb ond mae gan y dull oblygiadau clir ar gyfer pob erlyniad yn ymwneud â phobl anabl, p'un ai yn achwynwyr, tystion neu ddiffynyddion yn ogystal ag arferion cyflogi.

Fel rhan o ymrwymiad y CPS at ymgymryd â'r dull hwn, trefnwyd pedair gweminar pwrpasol ar gyfer HCCs Ardaloedd a Rheolwyr Cynhwysiant wrth baratoi ar gyfer cyflwyno pecyn hyfforddi ar y model cymdeithasol o anabledd neu wella mynediad at gyfiawnder ar gyfer pobl anabl.

Wrth asesu'r peilot, roedd argymhelliad am ddarparu ffocws mwy pendant ar y cymwysiadau ymarferol gan gynnwys dynodi'r rhwystrau o fynediad at gyfiawnder a'r camau sydd angen i'w dileu.

Roedd cyfle mewn cynhadledd rhwydwaith y HCC i dreialu defnydd a baratowyd gan Breakthrough a'r Sefydliad ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu. Rhwir ystyriaeth at droi'r deunydd hwn i fideo i'w gynnwys mewn hyfforddiant perthnasol.



Parhaodd y CPS i gefnogi gwaith Sefydliad ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu (FPLD) yn gysylltiedig â'r cam nesaf o'i ymchwil yn dilyn Unigrwydd a Chreulondeb (2012). Mae ymchwil gyfredol wedi canolbwyntio ar amlinellu'r profiad o droseddau casineb a'r ddarpariaeth o gefnogaeth ar gael i bobl sydd am ei hadrodd. Ymwelodd Prif Weithredwr y CPS â'r sefydliad hanner ffordd drwy'r ymchwil yn 2016 a chynrychiolwyd y CPS yn lansio'r adroddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi ym Medi 2018. Mae'r CPS wrthi yn paratoi nifer o gamau cefnogi a fydd yn cyflenwi'r casgliadau ymchwil.

Data

- Yn 2017-18, roedd gostyngiad o 23.7% yn y nifer o atgyfeiriadau terfynol gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 988 i 754. Yn ychwanegol, roedd gostyngiad yn y gyfradd o achosion a gyhuddwyd o 77.9% y flwyddyn flaenorol i 70.4%.
- Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gwblhawyd a lumanwyd yn droseddau casineb anabledd o 1,009 yn 2016-17 i 752 yn 2017-18. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 257 neu 25.5%.

Tabl 11: Erlyniadau a gwblhawyd fesul canlyniad

	2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	494	77.2%	470	81.9%	503	75.5%	707	75.1%	800	79.3%	564	75.0%
Euogfarnau aflwyddiannus	146	22.8%	104	18.1%	163	24.5%	234	24.9%	209	20.7%	188	25.0%
Cyfanswm	640		574		666		941		1,009		752	



- Gostyngodd y nifer o euogfarnau gan 29.5% o 800 yn 2016-17 i 564 yn 2017-18, roedd gostyngiad yn y gyfradd euogfarnu o 79.3% i 75.0%.

- Roedd 65.7% o euogfarnau yn bleon euog. O'r holl droseddau casineb anabledd a heriwyd mewn treial (ac eithrio pleon cymysg), euogfarnwyd 51.1% o'i gymharu â 61.8% yn 2016-17.
- Roedd 188o erlyniadau aflwyddiannus - roedd 14.4% (108) oherwydd i'r erlyniadau ddod i ben (gan gynnwys penderfyniadau i derfynu, tynnu'n ôl neu gynnig dim tystiolaeth), cynnydd o 12.9% (130) yn 2016-17. O'r holl euogfarnau aflwyddiannus, roedd 26.6% (50) oherwydd materion achwynwyr¹⁶; cynnydd o 21.5% (45) yn 2016-17.
- Yn 2017-18, cynrychiolodd y gyfran o euogfarnau a fu'n aflwyddiannus oherwydd rhyddfarniad ar ôl treial 31.9% (60) o'r holl euogfarnau aflwyddiannus, cynnydd o 30.6% (64) yn 2016-17.
- Mae dedfryd wedi ei dwysau a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd a arweinir at euogfarn yn arwydd clir o'r gyfraith yn cael ei gweithredu yn y ffordd mwyaf effeithiol. Yn 2017-18, roedd 133 o ddedfrydau wedi eu dwysau a gyhoeddwyd ac a gofnodwyd (24.8%) o bob euogfarn troseddau casineb anabledd, cynnydd o 116 neu 15.5% yn 2016-17. Er bod y canlyniad yn addawol, arhosa'r ffigwr yn is o beth na'r ffigwr ar gyfer edefynnau troseddau casineb eraill a dynodir camau i gynnal gwelliant parhaus drwy'r Cynllun Sicrwydd Troseddau Casineb.
- Yn 2017-18, roedd y gyfradd o euogfarnau o droseddau casineb anabledd a ddeilliwyd o bleon euog yn 65.7% (494). Dengys hyn ostyngiad o 67.9% (685) yn 2016-17. Eto, penderfynwyd nifer mwy o achosion yn y ffordd hon, ond bydd y CPS yn gweithio'n agosach ag Ardaloedd CPS i archwilio rhesymau posibl ar gyfer y gostyngiad hwn a'r camau sydd eu hangen i'w wrthdroi.
- Ar ddiwedd erlyniad, pennir prif gategori trosedd i achosion (gweler Tabl 3 uchod) yn dangos y math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. Parhaodd troseddau yn erbyn yr unigolyn y categori mwyaf cyffredin yn cynrychioli 48.1% o'r holl erlyniadau troseddau casineb anabledd yn 2017/18 a 46.4% yn 2016/17. Yn gyffredinol, roedd ystod fwy arwyddocaol o gategoriâu troseddau eraill wedi eu cynrychioli yn yr erlyniadau troseddau casineb anabledd nag ar gyfer unrhyw edefyn arall o droseddau casineb - o bosibl yn adlewyrchu natur caffaelgar rhai troseddau casineb anabledd. Archwiliwyd yr agwedd hon o elyniaeth at anabledd gyda chymorth y Panel Craffu Cenedlaethol ar elyniaeth at anabledd a gefnogodd y datblygu o'r datganiad polisi cyhoeddus am droseddau casineb anabledd a throseddau eraill yn erbyn pobl anabl yn 2016-17.

Materion cydraddoldeb

Rhyw

- Yn 2017-18, o'r 752 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 560 yn ddynion a 192 yn fenywod. Nid oedd unrhyw achos lle na chofnodwyd rhyw. Roedd 74.5% yn ddynion a 25.5% yn fenywod, sy'n gostyngiad yn y nifer o ddiffynyddion menywod o 28.0% y flwyddyn flaenorol. Mae'r cyfartaledd o ran rhyw diffynyddion dynion a menywod yn unigryw i droseddau casineb anabledd. Mewn achosion hil a chrefyddol, roedd y cyfartaledd yn 82.2%: 17.7% yn 2017-18 a 86.4%:13.5% mewn achosion homoffobaidd, biffobaidd a thrawsffobaidd.
- O ran data dioddefwyr, cofnodwyd 708 o ddioddefwyr gan y System Rheoli Tystion. O'r holl ddioddefwyr, roedd 316 yn ddynion a 268 yn fenywod. Ni chofnodwyd rhyw am 124 o

¹⁶ Mae materion achwynwyr yn cynnwys yr achwynydd yn tynnu'n ôl, y dioddefwr ddim yn mynychu'r llys a lle 'nid yw tystiolaeth yr achwynydd am y trosedd yn cefnogi'r achos'.

ddioddefwyr. Cynyddoddgofnodi rhyw y dioddefwr o 77.8% yn 2016-17 i 82.5% ac felly mae'n awr yn ddigon cadarn i gyfrif cyfrannau yn ôl rhyw yn gywir.

Ethnigrwydd

- Yn 2017-18, roedd 69.0% o ddiffynyddion mewn achosion a lunamwyd yn droseddau casineb anabledd yn Wyn (gostyngiad o'r ffigwr 72.7% yn 2016-17), roedd 66.1% wedi'i ddynodi yn y categori Gwyn Prydeinig. Dynodwyd 4.9% o ddiffynyddion yn Ddu, wedi'i ostwng o 5.6% y flwyddyn flaenorol a dynodwyd 3.2% yn Asiaidd, cynnydd o 2.7% y flwyddyn flaenorol.
- Ni chofnodir llai na hanner y data o ran ethnigrwydd y dioddefwr ac felly ni chynhwysir y data yn yr adroddiad hwn.

Oedran

- O ran y diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran, roedd y mwyafrif yn 25-59 oed (66.1%) a 18-24 (18.6%). Roedd 30.1% o'r diffynyddion (226) yn 24 oed neu'n iau, roedd 73 (9.7%) o'r diffynyddion yn 14-17 oed ac roedd 13 (1.7%) yn 10-13 oed.
- O ran y dioddefwyr y cofnodwyd eu hoedran, roedd y mwyafrif yn 25-59 oed (58.7%) a 18-24 oed (10.1%). Roedd 17.4% o ddioddefwyr (114) 24 oed neu'n iau, roedd 30 (4.5%) yn 14-17 oed, roedd 15 (2.3%) yn 10-13 oed ac roedd 3 (0.5%) yn iau na 10 oed.

Ysgogi casineb

Cyflwyniad

Mae troseddau casineb yn canolbwyntio ar elyniaeth neu ragfarn yn erbyn adrannau penodol o'r gymdeithas. Mae gelyniaeth yn cael ei ddefnyddio yn ei ystyr arferol, bob dydd ac mae ei ddiffiniad geiriadur yn awgrymu dymuno'r gwaethaf, diffyg cyfeillgarwch, malais, casineb, dirmyg, rhagfarn, dicllondeb ac anhoffter. Ond mae'r troseddau trefn gyhoeddus o "ysgogi casineb" yn canolbwyntio ar gasineb ei hun a'r bwriad neu effaith tebygol y drosedd dan sylw.

Mae'r nifer o achosion sy'n cael eu dwyn yn llawer is nag ar gyfer troseddau eraill a drafodir yn yr adroddiad hwn. Mae hyn oherwydd y trothwy uwch o ran tystiolaeth a'r angen i ystyried hawl rhyddid i ddatgan barn unigolion. Mae'n hanfodol mewn cymdeithas rydd, ddemocrataidd a goddefgar i bobl fedru cyfnewid barn, hyd yn oed pan allant beri tramgwydd. Ond, mae'n rhaid i'r CPS dafoli hawliau unigolyn i gael rhyddid i lefaru a mynegi ei hun gyda dyletswydd y wladwriaeth i weithredu'n gymesur er budd diogelwch y cyhoedd, i atal anhrefn a throseddau, ac i ddiogelu hawliau pobl eraill.

Cyfeirir achosion posibl at yr Isadran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth (SCCTD) gan Ardaloedd CPS yn unol â Chyfarwyddyd Cyhoeddus y CPS ar Erlyn Achosion o Ysgogi Troseddau Hiliol neu Grefyddol, ac ar gyfer Ysgogi Casineb ar Sail Cyfeiriadedd Rhywiol. Mae rhaid cael caniatâd y Twrnai Cyffredinol i erlyn yr achosion hyn.

Cododd pryder y cyhoedd am yr achosion hyn yn ddiweddar yn dilyn y cynnydd mewn gelyniaeth a welwyd ac a gofnodwyd yn dilyn digwyddiadau terfysgol yma neu yn rhyngwladol fel y rhai a ddigwyddodd yn Llundain, Manceinion, Barcelona a Berlin. Mae'r heddlu a'r asiantaethau adrodd trydydd parti, Tell MAMA a'r Ymddiriedolaeth Ddiogelwch Gymunedol, wedi nodi cynnydd mewn digwyddiadau troseddau casineb yn syth wedi digwyddiadau o'r fath.

Mae'n her o hyd o ran codi ymwybyddiaeth o bob math o droseddau casineb, ond mae troseddau ysgogi yn dod â haen ychwanegol o gymhlethdod. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r natur dwysach o gasineb yn hytrach na elyniaeth. Mae hefyd angen datganedig o fewn y gyfraith i ystyried hawl rhyddid i ddatgan barn. Mae gwahaniaethau sylweddol mewn "edefynnau" gwahanol a gynhwysir o fewn y gyfraith ac er bod y gyfradd euogfarnu yn uchel o'i gymharu â mathau eraill o droseddau casineb, mae atgyfeiriadau a phenderfyniadau i gyhuddo yn llawer is.

Yn ddiweddar, mae SCCTD wedi diwygio'r cyfarwyddyd cyfreithiol mewnol ar gyfer erlynwyr am ysgogi troseddau casineb ar sail hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 (fel a newidwyd) i adlewyrchu cyfraith achosion a chanlyniadau cadarnhaol diweddar.

Data

- Roedd naw erlyniad yn 2017-18, roedd wyth ohonynt yn euogfarnau llwyddiannus.
- Roedd yr euogfarn gyntaf yn cynnwys wyth trosedd o gyhoeddi neu ddosbarthu deunydd ysgrifenedig a fwriadwyd i ysgogi casineb crefyddol, yn groes i adran 29C Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn erbyn cymunedau Mwslimaidd. Cofnododd y diffynnydd ble euog a ddedfrydwyd i 20 mis o garchar.

- Roedd yr ail achos yn ymwneud â thriachos o ysgogi casineb crefyddol tuag at gymunedau Mwslimaidd yn groes i adran 29C Deddf Trefn Gyhoeddus 1986. Plediodd y diffynnydd yn euog o greu tri post Facebook a ddedfrydwyd i ddwy flynedd o garchar.
- Roedd y trydydd achos yn ymwneud ag un achos o ysgogi casineb hiliol yn erbyn ffoaduriaid ac un achos o ysgogi casineb yn erbyn cymunedau Mwslimaidd yn groes i adran 19(1) a 29C Deddf Trefn Gyhoeddus 1986. Plediodd y diffynnydd yn euog o greu dau bost Facebook a ddedfrydwyd i naw mis o garchar a ataliwyd am ddwy flynedd ac 20 diwrnod o gyfnod ailsefydlu.
- Roedd y pedwerydd achos yn ymwneud ag un achos o ysgogi casineb crefyddol yn erbyn cymunedau Mwslimaidd yn fuan wedi'r ymosodiad ar Arena Manceinion, yn groes i adran 29C Deddf Trefn Gyhoeddus 1986. Plediodd y diffynnydd yn euog a ddedfrydwyd i 12 mis o garchar.
- Roedd y pumed achos yn ymwneud ag un achos o ysgogi casineb hiliol a dau achos o gyhoeddi/dosbarthu deunydd ysgrifenedig yn ysgogi casineb crefyddol gan dargedu "estroniaid" a chymunedau Mwslimaidd mewn ymateb i'r ymosodiad gan derfysgwyr ar Bont Llundain. Dedfrydwyd y diffynnydd i 15 mis o garchar.
- Roedd y chweched achos yn cynnwys chwe achos o ysgogi casineb crefyddol yn erbyn cymunedau Mwslimaidd. Plediodd y diffynnydd yn euog a ddedfrydwyd i 20 mis o garchar.
- Roedd y seithfed achos yn ymwneud â thri achos o ysgogi casineb crefyddol tuag at gymunedau Mwslimaidd. Plediodd y diffynnydd yn euog a ddedfrydwyd i 12 mis o garchar a ataliwyd am ddwy flynedd gyda 20 diwrnod o gyfnod ailsefydlu a 300 awr o Wasanaeth Cymunedol.
- Roedd yr wythfed achos yn cynnwys chwe achos o gyhoeddi deunydd ysgrifenedig a chwe achos o gyhoeddi deunydd bygythiol a fwriadwyd i ysgogi casineb tuag at y cymunedau Mwslimaidd, Affricanaidd Caribïaidd ac Iddewaidd. Plediodd y diffynnydd yn euog a ddedfrydwyd igyfanswm obedair mlynedd o garchar.

Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn

Ym mis Tachwedd 2017, cynhaliodd y CPS dau Banel Craffu Cenedlaethol ar droseddau yn erbyn pobl hŷn (CAOP); un yn Llundain ac un yng Nghaerdydd. Ymhlith y rhai presennol oedd yr Heddlu, Age UK, Age Cymru, Action on Elder Abuse, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, Safonau Masnachu a swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Y pwrpas o gynnal y paneli oedd i gefnogi'r CPS yn diwygio ei gyfarwyddyd cyfreithiol a chyfarwyddyd polisi ar CAOP i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu cyd-destun, natur ac effaith y troseddau hyn.

Rhoddodd y paneli goleuni amhrisiadwy a phwysleisiodd nifer o faterion gan gynnwys yr angen i ystyried cam-drin domestig o bobl hŷn gan aelodau'r teulu, y rhwystrau sy'n bodoli tuag at adrodd megis arwahaniad, cywilydd a dibyniaeth ar yr un sy'n cam-drin a'r angen i weithio ar y cyd gyda'r heddlu a'r system gofal cymdeithasol.

Cyhoeddwyd y cyfarwyddyd polisi diwygiedig i'w ymgynghori ar 10 Medi. Mae disgwyl i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 29 Hydref. Ar ôl y dyddiad hwn, dadansoddir ymatebion a chyhoeddir fersiwn terfynol o'r datganiad polisi gyda'r cyfarwyddyd cyfreithiol diwygiedig.

Nid oes diffiniad statudol o drosedd yn erbyn person hŷn ac nid oes deddfwriaeth benodol. Nid yw Adrannau 145 ac 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, sy'n darparu ar gyfer dwysau dedfryd mewn achosion o droseddau hiliol a chrefyddol, troseddau homoffobaidd, biffobaidd a thrawsffobaidd a throseddau casineb anabledd, yn berthnasol i droseddau yn erbyn person hŷn oni bai bod y drosedd hefyd yn dod dan un o'r categorïau eraill. Serch hynny, mae canllawiau dedfrydu yn gwahodd y llysoedd i gynyddu'r ddedfryd am droseddau yn erbyn pobl hŷn ar y sail bod y ffaith eu bod yn cael eu hystyried yn fregus yn ffactor gwaethybol gan gynyddu difrifoldeb y drosedd.

Mae'r CPS yn defnyddio canllawiau dedfrydu ym mhob achos perthnasol ac yn gweithredu lluman CAOP ar system reoli achosion ddigidol y CPS ar achosion dan yr amgylchiadau canlynol er mwyn i'r achosion gael eu hadnabod:



- pan fydd perthynas a disgwyliad o ymddiriedaeth e.e. ymosodiad/lladrad gan ofalwr neu aelod o'r teulu;
- pan fydd y drosedd wedi ei thargedu'n benodol at yr unigolyn hŷn oherwydd eu bod yn cael eu canfod fel rhywun bregus neu'n 'darged hawdd' e.e. byrgleriaeth tynnu sylw neu fygio;
- pan na fydd y drosedd ar y dechrau yn gysylltiedig ag oed yr unigolyn hŷn ond ei bod yn nes ymlaen e.e. byrgleriaeth pan nad yw'r byrgler yn gwybod beth yw oed deiliad y cartref ond yn nes ymlaen mae'n manteisio ar y sefyllfa wrth ganfod bod y deiliad yn unigolyn hŷn;
- pan fydd troseddau yn ymddangos fel petaent wedi eu hysgogi'n rhannol, neu'n gyfan gwbl, gan elyniaeth seiliedig ar oed, neu oed tybiedig e.e. ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â datganiadau sarhaus yn gysylltiedig ag oedran y dioddefwr; neu
- pan fydd troseddwr yn fwriadol yn targedu unigolyn hŷn oherwydd ei elyniaeth neu ei gelyniaeth tuag at bobl hŷn.

Data

- Yn 2017-18, roedd gostyngiad o 2.2% yn y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 3,467 i 3,389. Roedd gostyngiad yn y gyfran o achosion a gyhuddwyd o 80.3% yn y flwyddyn flaenorol i 77.2% a arweiniodd at 2,615 o ddiffynyddion yn cael eu cyhuddo.
- Gostyngodd y nifer o erlyniadau CAOP a gwblhawyd o 3,554 yn 2016-17 i 3,295. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 259 neu 7.3%.

Tabl 14: Erlyniadau a gwblhawyd fesul canlyniad am droseddau yn erbyn pobl hŷn

	2012-13		2013-14		2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Euogfarnau	2,340	81.1%	2,369	81.1%	2,983	80.8%	3,012	80.1%	2,856	80.4%	2,753	83.6%
Euogfarnau aflwyddiannus	546	18.9%	553	18.9%	710	19.2%	747	19.9%	698	19.6%	542	16.4%
Cyfanswm	2,886		2,922		3,693		3,759		3,554		3,295	



- Gostyngodd y nifer o euogfarnau 3.6% o 2,856 yn 2016-17 i 2,753 yn 2017-18 tra gwellodd y gyfradd euogfarnu yn sylweddol o 80.4% i 83.6%. Roedd 75.3% o euogfarnau yn bleon euog, gwelliant ar y ffigwr 71.8% o'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd 542o erlyniadau yn euogfarnau aflwyddiannus, gostyngiad o 156 neu 22.3% o'r flwyddyn flaenorol. Roedd 9.3% ohonynt oherwydd i'r erlyniadau ddod i ben (gan gynnwys penderfyniadau i derfynu, tynnu'n ôl neu gynnig dim tystiolaeth), gostyngiad o 12.4% yn 2016-17.
- O'r holl euogfarnau aflwyddiannus, roedd 23.8% ohonynt oherwydd materion achwynwyr,¹⁷ychydig o gynnydd o 23.2% yn 2016-17.
- Yn 2017-18, cynrychiolodd y gyfran o euogfarnau a fu'n aflwyddiannus oherwydd rhyddfarniad ar ôl treial 26.2% (142) o'r holl euogfarnau aflwyddiannus, cynnydd o 23.4% (163) yn 2016-17.

Materion cydraddoldeb

- O'r diffynyddion y cofnodwyd eu rhyw, roedd 2,479 (75.2%) o erlyniadau a gwblhawyd yn ddynion. Mae hyn wedi codi o 2,708 (76.2%) yn 2016-17.
- Mae cofnodi rhyw y dioddefwr wedi gwella o 75.6% yn 2016-17 i 80.3% yn 2017-18 ac felly nid yw'n ddigon cadarn i gyfrif cyfrannau yn ôl rhyw yn gywir.

Ar ddiwedd erlyniad, mae achosion yn cael prif gategori trosedd i ddangos math a difrifoldeb y cyhuddiadau a wnaethpwyd. Mae Tabl 15 isod yn dangos y categorïau trosedd ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn (CAOP).

Tabl 15: Categorïau prif drosedd ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn

Categori'r Brif Drosedd	2014–15	2015–16	2016–17	2017-18
Dynladdiad	1.0%	1.0%	0.9%	0.8%
Troseddau yn erbyn yr unigolyn	28.4%	31.3%	33.8%	35.7%
Troseddau rhywiol	1.6%	1.3%	1.5%	1.6%
Byrgleriaeth	20.9%	20.4%	18.0%	16.8%
Lladrad	6.5%	7.3%	6.6%	8.1%
Dwyn a thrin	17.8%	16.8%	13.7%	11.8%
Twyll a ffugiad	13.0%	15.1%	20.2%	18.3%
Difrod troseddol	4.2%	3.1%	2.4%	3.4%
Troseddau cyffuriau	0.7%	0.7%	0.8%	0.7%
Troseddau trefn gyhoeddus	2.3%	1.5%	1.3%	1.3%

- Cynyddodd y gyfran o achosion a ddosbarthwyd fel Troseddau yn erbyn yr Unigolyn eto yn ystod

¹⁷Mae materion achwynwyr yn cynnwys y dioddefwr yn tynnu'n ôl, y dioddefwr ddim yn mynychu'r llys a lle 'nid yw tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos'.

2017-18 ond dylid nodi'r pwyslais parhaus ar droseddau manteisio gyda phwyslais ar enillion ariannol.

Atodiad I: Erlyniadau yn ôl Ardal ac ardal lluoedd yr heddlu

Cyfanswm Erlyniadau Troseddau Casineb y CPS

	2017 - 18				
	Euogfarnau		Euogfarnau aflwyddiannus		CYFANSWM
	Nifer	%	Nifer	%	
14 Ardal CPS	11,987	84.7%	2,164	15.3%	14,151
Cymru Wales	610	86.9%	92	13.1%	702
Dyfed Powys	49	94.2%	3	5.8%	52
Gwent	105	86.8%	16	13.2%	121
Gogledd Cymru	138	87.9%	19	12.1%	157
De Cymru	318	85.5%	54	14.5%	372
Dwyrain Lloegr	524	86.0%	85	14.0%	609
Swydd Gaergrawnt	157	87.7%	22	12.3%	179
Essex	145	81.0%	34	19.0%	179
Norfolk	134	86.5%	21	13.5%	155
Suffolk	88	91.7%	8	8.3%	96
Dwyrain Canolbarth Lloegr	920	86.7%	141	13.3%	1,061
Swydd Derby	169	88.5%	22	11.5%	191
Swydd Gaerlŷr	327	89.8%	37	10.2%	364
Swydd Lincoln	67	85.9%	11	14.1%	78
Swydd Northampton	97	82.2%	21	17.8%	118
Swydd Nottingham	260	83.9%	50	16.1%	310
Gogledd Llundain	1,302	78.3%	361	21.7%	1,663
De Llundain	1,209	78.2%	337	21.8%	1,546
Glannau Mersi a Swydd Gaer	623	86.5%	97	13.5%	720
Swydd Gaer	262	87.9%	36	12.1%	298
Glannau Mersi	361	85.5%	61	14.5%	422
Gogledd Ddwyrain Lloegr	555	82.7%	116	17.3%	671
Cleveland	133	86.9%	20	13.1%	153
Durham	87	87.0%	13	13.0%	100
Northumbria	335	80.1%	83	19.9%	418
Gogledd Orllewin Lloegr	942	86.6%	146	13.4%	1,088
Cumbria	75	88.2%	10	11.8%	85

Manceinion Fwyaf	638	87.2%	94	12.8%	732
Sir Gaerhirfryn	229	84.5%	42	15.5%	271
De Ddwyrain Lloegr	685	87.0%	102	13.0%	787
Caint	298	86.1%	48	13.9%	346
Surrey	160	84.7%	29	15.3%	189
Sussex	227	90.1%	25	9.9%	252
De Orllewin Lloegr	544	86.5%	85	13.5%	629
Avon a Gwlad yr Haf	287	84.9%	51	15.1%	338
Dyfnaint a Chernyw	199	91.3%	19	8.7%	218
Swydd Gaerloyw	58	79.5%	15	20.5%	73
Tafwys a Chiltern	771	83.7%	150	16.3%	921
Swydd Bedford	143	81.7%	32	18.3%	175
Swydd Hertford	217	85.4%	37	14.6%	254
Dyffryn Tafwys	411	83.5%	81	16.5%	492
Wessex	613	91.5%	57	8.5%	670
Dorset	118	90.8%	12	9.2%	130
Hampshire ac Ynys Wyth	386	90.6%	40	9.4%	426
Wiltshire	109	95.6%	5	4.4%	114
Gorllewin Canolbarth Lloegr	1704	86.3%	270	13.7%	1,974
Swydd Stafford	152	84.4%	28	15.6%	180
Swydd Warwick	77	83.7%	15	16.3%	92
Gorllewin Mersia	192	83.1%	39	16.9%	231
Gorllewin Canolbarth Lloegr	1,283	87.2%	188	12.8%	1,471
Swydd Efrog a Glannau Humber	985	88.7%	125	11.3%	1,110
Glannau Humber	110	90.2%	12	9.8%	122
Gogledd Swydd Efrog	79	88.8%	10	11.2%	89
De Swydd Efrog	204	87.2%	30	12.8%	234
Gorllewin Swydd Efrog	592	89.0%	73	11.0%	665

Cyfanswm Erlyniadau Troseddol y CPS am Hil a Chrefydd

2017-18				
Euogfarnau		Euogfarn aflwyddiannus		CYFANSWM
Nifer	%	Nifer	%	

14 Ardal CPS	10,141	85.4%	1,740	14.6%	11,881
Cymru Wales	487	88.1%	66	11.9%	553
Dyfed Powys	34	94.4%	2	5.6%	36
Gwent	80	87.9%	11	12.1%	91
Gogledd Cymru	111	88.8%	14	11.2%	125
De Cymru	262	87.0%	39	13.0%	301
Dwyrain Lloegr	453	86.1%	73	13.9%	526
Swydd Gaergrawnt	148	88.6%	19	11.4%	167
Essex	123	80.4%	30	19.6%	153
Norfolk	107	86.3%	17	13.7%	124
Suffolk	75	91.5%	7	8.5%	82
Dwyrain Canolbarth Lloegr	765	86.4%	120	13.6%	885
Swydd Derby	148	88.6%	19	11.4%	167
Swydd Gaerlŷr	266	88.7%	34	11.3%	300
Swydd Lincoln	52	86.7%	8	13.3%	60
Swydd Northampton	80	79.2%	21	20.8%	101
Swydd Nottingham	219	85.2%	38	14.8%	257
Gogledd Llundain	1208	79.5%	311	20.5%	1,519
De Llundain	1061	78.0%	299	22.0%	1,360
Glannau Mersi a Swydd Gaer	491	86.1%	79	13.9%	570
Swydd Gaer	200	87.3%	29	12.7%	229
Glannau Mersi	291	85.3%	50	14.7%	341
Gogledd Ddwyrain Lloegr	439	85.1%	77	14.9%	516
Cleveland	110	90.9%	11	9.1%	121
Durham	64	88.9%	8	11.1%	72
Northumbria	265	82.0%	58	18.0%	323
Gogledd Orllewin Lloegr	754	87.5%	108	12.5%	862
Cumbria	53	91.4%	5	8.6%	58
Manceinion Fwyaf	513	88.1%	69	11.9%	582
Swydd Gaerhirfryn	188	84.7%	34	15.3%	222
De Ddwyrain Lloegr	559	88.0%	76	12.0%	635
Caint	251	86.9%	38	13.1%	289
Surrey	137	84.0%	26	16.0%	163
Sussex	171	93.4%	12	6.6%	183
De Orllewin Lloegr	456	88.7%	58	11.3%	514
Avon a Gwlad yr Haf	251	87.8%	35	12.2%	286

Dyfnaint a Chernyw	158	91.9%	14	8.1%	172
Swydd Gaerloyw	47	83.9%	9	16.1%	56
Tafwys a Chiltern	661	84.7%	119	15.3%	780
Swydd Bedford	125	81.7%	28	18.3%	153
Swydd Hertford	185	86.4%	29	13.6%	214
Dyffryn Tafwys	351	85.0%	62	15.0%	413
Wessex	489	93.1%	36	6.9%	525
Dorset	92	91.1%	9	8.9%	101
Hampshire ac Ynys Wyth	308	92.5%	25	7.5%	333
Wiltshire	89	97.8%	2	2.2%	91
Gorllewin Canolbarth Lloegr	1500	87.4%	216	12.6%	1,716
Swydd Stafford	131	86.2%	21	13.8%	152
Swydd Warwick	63	82.9%	13	17.1%	76
Gorllewin Mersia	163	87.2%	24	12.8%	187
Gorllewin Canolbarth Lloegr	1143	87.9%	158	12.1%	1,301
Swydd Efrog a Glannau Humber	818	88.9%	102	11.1%	920
Glannau Humber	89	92.7%	7	7.3%	96
Gogledd Swydd Efrog	64	90.1%	7	9.9%	71
De Swydd Efrog	163	86.2%	26	13.8%	189
Gorllewin Swydd Efrog	502	89.0%	62	11.0%	564

Cyfanswm Erlyniadau'r CPS am Droseddau Homoffobaidd a Thrawsfobaidd

	2017-18				
	Euogfarnau		Euogfarnau aflwyddiannus		CYFANSWM
	Nifer	%	Nifer	%	
14 Ardal CPS	1,282	84.5%	236	15.5%	1,518
Cymru Wales	95	87.2%	14	12.8%	109
Dyfed Powys	12	100.0%	0	0.0%	12
Gwent	22	88.0%	3	12.0%	25
Gogledd Cymru	15	100.0%	0	0.0%	15
De Cymru	46	80.7%	11	19.3%	57
Dwyrain Lloegr	39	86.7%	6	13.3%	45
Swydd Gaergrawnt	6	85.7%	1	14.3%	7

Essex	9	81.8%	2	18.2%	11
Norfolk	16	84.2%	3	15.8%	19
Suffolk	8	100.0%	0	0.0%	8
Dwyrain Canolbarth Lloegr	113	92.6%	9	7.4%	122
Swydd Derby	18	85.7%	3	14.3%	21
Swydd Gaerlŷr	52	96.3%	2	3.7%	54
Swydd Lincoln	7	87.5%	1	12.5%	8
Swydd Northampton	10	100.0%	0	0.0%	10
Swydd Nottingham	26	89.7%	3	10.3%	29
Gogledd Llundain	80	71.4%	32	28.6%	112
De Llundain	123	82.0%	27	18.0%	150
Glannau Mersi a Swydd Gaer	89	87.3%	13	12.7%	102
Swydd Gaer	33	86.8%	5	13.2%	38
Glannau Mersi	56	87.5%	8	12.5%	64
Gogledd Ddwyrain Lloegr	53	79.1%	14	20.9%	67
Cleveland	18	90.0%	2	10.0%	20
Durham	10	100.0%	0	0.0%	10
Northumbria	25	67.6%	12	32.4%	37
Gogledd Orllewin Lloegr	114	85.1%	20	14.9%	134
Cumbria	15	78.9%	4	21.1%	19
Manceinion Fwyaf	76	86.4%	12	13.6%	88
Swydd Gaerhirfryn	23	85.2%	4	14.8%	27
De Ddwyrain Lloegr	93	83.8%	18	16.2%	111
Caint	31	81.6%	7	18.4%	38
Surrey	17	85.0%	3	15.0%	20
Sussex	45	84.9%	8	15.1%	53
De Orllewin Lloegr	59	79.7%	15	20.3%	74
Avon a Gwlad yr Haf	25	71.4%	10	28.6%	35
Dyfnaint a Chernyw	26	89.7%	3	10.3%	29
Swydd Gaerloyw	8	80.0%	2	20.0%	10
Tafwys a Chiltern	79	85.9%	13	14.1%	92
Swydd Bedford	14	87.5%	2	12.5%	16
Swydd Hertford	24	85.7%	4	14.3%	28
Dyffryn Tafwys	41	85.4%	7	14.6%	48
Wessex	94	89.5%	11	10.5%	105
Dorset	19	95.0%	1	5.0%	20

Hampshire ac Ynys Wyth	59	88.1%	8	11.9%	67
Wiltshire	16	88.9%	2	11.1%	18
Gorllewin Canolbarth Lloegr	157	81.3%	36	18.7%	193
Swydd Stafford	11	68.8%	5	31.3%	16
Swydd Warwick	12	85.7%	2	14.3%	14
Gorllewin Mersia	23	76.7%	7	23.3%	30
Gorllewin Canolbarth Lloegr	111	83.5%	22	16.5%	133
Swydd Efrog a Glannau Humber	94	92.2%	8	7.8%	102
Glannau Humber	14	100.0%	0	0.0%	14
Gogledd Swydd Efrog	7	87.5%	1	12.5%	8
De Swydd Efrog	19	90.5%	2	9.5%	21
Gorllewin Swydd Efrog	54	91.5%	5	8.5%	59

Cyfanswm Erlyniadau'r CPS am Droseddau Casineb Anabledd

	2017-18				
	Euogfarnau		Euogfarnau aflwyddiannus		CYFANSWM
	Nifer	%	Nifer	%	
14 Ardal CPS	564	75.0%	188	25.0%	752
Cymru Wales	28	70.0%	12	30.0%	40
Dyfed Powys	3	75.0%	1	25.0%	4
Gwent	3	60.0%	2	40.0%	5
Gogledd Cymru	12	70.6%	5	29.4%	17
De Cymru	10	71.4%	4	28.6%	14
Dwyrain Lloegr	32	84.2%	6	15.8%	38
Swydd Gaergrawnt	3	60.0%	2	40.0%	5
Essex	13	86.7%	2	13.3%	15
Norfolk	11	91.7%	1	8.3%	12
Suffolk	5	83.3%	1	16.7%	6
Dwyrain Canolbarth Lloegr	42	77.8%	12	22.2%	54
Swydd Derby	3	100.0%	0	0.0%	3
Swydd Gaerlŷr	9	90.0%	1	10.0%	10
Swydd Lincoln	8	80.0%	2	20.0%	10
Swydd Northampton	7	100.0%	0	0.0%	7
Swydd Nottingham	15	62.5%	9	37.5%	24

Gogledd Llundain	14	43.8%	18	56.3%	32
De Llundain	25	69.4%	11	30.6%	36
Glannau Mersi a Swydd Gaer	43	89.6%	5	10.4%	48
Swydd Gaer	29	93.5%	2	6.5%	31
Glannau Mersi	14	82.4%	3	17.6%	17
Gogledd Ddwyrain Lloegr	63	71.6%	25	28.4%	88
Cleveland	5	41.7%	7	58.3%	12
Durham	13	72.2%	5	27.8%	18
Northumbria	45	77.6%	13	22.4%	58
Gogledd Orllewin Lloegr	74	80.4%	18	19.6%	92
Cumbria	7	87.5%	1	12.5%	8
Manceinion Fwyaf	49	79.0%	13	21.0%	62
Swydd Gaerhirfryn	18	81.8%	4	18.2%	22
De Ddwyrain Lloegr	33	80.5%	8	19.5%	41
Caint	16	84.2%	3	15.8%	19
Surrey	6	100.0%	0	0.0%	6
Sussex	11	68.8%	5	31.3%	16
De Orllewin Lloegr	29	70.7%	12	29.3%	41
Avon a Gwlad yr Haf	11	64.7%	6	35.3%	17
Dyfnaint a Chernyw	15	88.2%	2	11.8%	17
Swydd Gaerloyw	3	42.9%	4	57.1%	7
Tafwys a Chiltern	31	63.3%	18	36.7%	49
Swydd Bedford	4	66.7%	2	33.3%	6
Swydd Hertford	8	66.7%	4	33.3%	12
Dyffryn Tafwys	19	61.3%	12	38.7%	31
Wessex	30	75.0%	10	25.0%	40
Dorset	7	77.8%	2	22.2%	9
Hampshire ac Ynys Wyth	19	73.1%	7	26.9%	26
Wiltshire	4	80.0%	1	20.0%	5
Gorllewin Canolbarth Lloegr	47	72.3%	18	27.7%	65
Swydd Stafford	10	83.3%	2	16.7%	12
Swydd Warwick	2	100.0%	0	0.0%	2
Gorllewin Mersia	6	42.9%	8	57.1%	14
Gorllewin Canolbarth Lloegr	29	78.4%	8	21.6%	37
Swydd Efrog a Glannau Humber	73	83.0%	15	17.0%	88
Glannau Humber	7	58.3%	5	41.7%	12

Gogledd Swydd Efrog	8	80.0%	2	20.0%	10
De Swydd Efrog	22	91.7%	2	8.3%	24
Gorllewin Swydd Efrog	36	85.7%	6	14.3%	42

Cyfanswm Erlyniadau'r CPS am droseddau yn erbyn pobl hŷn

	2017-18				
	Euogfarnau		Euogfarnau aflwyddiannus		CYFANSWM
	Nifer	%	Nifer	%	
14 Ardal CPS	2,753	83.6%	542	16.4%	3,295
Cymru Wales	214	85.6%	36	14.4%	250
Dyfed Powys	17	73.9%	6	26.1%	23
Gwent	37	90.2%	4	9.8%	41
Gogledd Cymru	53	84.1%	10	15.9%	63
De Cymru	107	87.0%	16	13.0%	123
Dwyrain Lloegr	207	89.2%	25	10.8%	232
Swydd Gaergrawnt	46	90.2%	5	9.8%	51
Essex	77	87.5%	11	12.5%	88
Norfolk	59	90.8%	6	9.2%	65
Suffolk	25	89.3%	3	10.7%	28
Dwyrain Canolbarth Lloegr	200	88.5%	26	11.5%	226
Swydd Derby	32	86.5%	5	13.5%	37
Swydd Gaerlŷr	43	87.8%	6	12.2%	49
Swydd Lincoln	39	88.6%	5	11.4%	44
Swydd Northampton	21	91.3%	2	8.7%	23
Swydd Nottingham	65	89.0%	8	11.0%	73
Gogledd Llundain	131	74.0%	46	26.0%	177
De Llundain	161	79.7%	41	20.3%	202
Glannau Mersi a Swydd Gaer	99	83.2%	20	16.8%	119
Swydd Gaer	43	79.6%	11	20.4%	54
Glannau Mersi	56	86.2%	9	13.8%	65
Gogledd Ddwyrain Lloegr	186	79.1%	49	20.9%	235
Cleveland	34	77.3%	10	22.7%	44
Durham	42	82.4%	9	17.6%	51

Northumbria	110	78.6%	30	21.4%	140
Gogledd Orllewin Lloegr	271	86.3%	43	13.7%	314
Cumbria	27	87.1%	4	12.9%	31
Manceinion Fwyaf	147	85.0%	26	15.0%	173
Swydd Gaerhirfryn	97	88.2%	13	11.8%	110
De Ddwyrain Lloegr	213	84.2%	40	15.8%	253
Caint	102	85.7%	17	14.3%	119
Surrey	35	76.1%	11	23.9%	46
Sussex	76	86.4%	12	13.6%	88
De Orllewin Lloegr	119	79.3%	31	20.7%	150
Avon a Gwlad yr Haf	45	72.6%	17	27.4%	62
Dyfnaint a Chernyw	53	84.1%	10	15.9%	63
Swydd Gaerloyw	21	84.0%	4	16.0%	25
Tafwys a Chiltern	232	83.5%	46	16.5%	278
Swydd Bedford	37	88.1%	5	11.9%	42
Swydd Hertford	75	83.3%	15	16.7%	90
Dyffryn Tafwys	120	82.2%	26	17.8%	146
Wessex	109	85.2%	19	14.8%	128
Dorset	40	87.0%	6	13.0%	46
Hampshire ac Ynys Wyth	48	80.0%	12	20.0%	60
Wiltshire	21	95.5%	1	4.5%	22
Gorllewin Canolbarth Lloegr	297	81.6%	67	18.4%	364
Swydd Stafford	44	67.7%	21	32.3%	65
Swydd Warwick	26	89.7%	3	10.3%	29
Gorllewin Mersia	55	84.6%	10	15.4%	65
Gorllewin Canolbarth Lloegr	172	83.9%	33	16.1%	205
Swydd Efrog a Glannau Humber	314	85.6%	53	14.4%	367
Glannau Humber	40	90.9%	4	9.1%	44
Gogledd Swydd Efrog	27	79.4%	7	20.6%	34
De Swydd Efrog	87	84.5%	16	15.5%	103
Gorllewin Swydd Efrog	160	86.0%	26	14.0%	186

Geirfa ac acronymau

Edefynnau Troseddau Casineb

Digwyddiadau hiliol neu grefyddol:	unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall yn amgyffred ei fod wedi ei ysgogi gan gasineb neu ragfarn ar sail hil neu grefydd unigolyn, neu ei hil neu grefydd dybiedig.
Digwyddiadau homoffobaidd, biffobaidd neu trawsffobaidd:	unrhyw ddigwyddiad a ddehonglir gan y dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall, sydd wedi ei ysgogi gan gasineb neu ragfarn ar sail tueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol neu dueddfryd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol dybiedig.
Digwyddiadau anabledd:	unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall yn amgyffred ei fod wedi ei ysgogi gan gasineb neu ragfarn ar sail anabledd neu anabledd tybiedig unigolyn.
Llumanau monitro:	mae mathau achosion wedi'u dynodi gan nifer o lumanau monitro, a'u defnyddio gydag achosion priodol yn ystod y cam cyn cyhuddo. Mae'r llumanau yn caniatáu i reolwyr fonitro gweithrediadau yn ystod oes yr erlyniad, a galluogi adrodd ar ddeilliannau yn dilyn cwblhau'r achos. Defnyddir llumanau mewn achosion o droseddau casineb a throseddau yn erbyn pobl hŷn.
Troseddau yn erbyn pobl hŷn:	troseddau yn y categorïau isod, pan fydd y dioddefydd dros 60 oed: • pan fydd perthynas a disgwyliad o ymddiriedaeth, er enghraifft, lladrad neu ymosodiad gan ofalwr neu aelod o'r teulu • sydd wedi eu targedu'n benodol at yr unigolyn hŷn oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn rhywun bregus neu'n darged hawdd e.e. byrgleriaeth tynnu sylw neu fygio • nad ydynt yn gysylltiedig yn gyntaf ag oed y person hŷn ond eu bod yn mynd felly yn hwyrach e.e. byrgleriaeth pan nad yw'r byrgler yn gwybod beth yw oed deiliad y cartref ond yn hwyrach mae'n manteisio ar y sefyllfa wrth ganfod bod y deiliad yn berson hŷn • sy'n ymddangos i fod yn rhannol, neu'n gyfan gwbl, wedi ei gymell gan elyniaeth wedi ei seilio ar oed, neu oed tybiedig. Er enghraifft, ymosodiad, aflonyddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys gwneud sylwadau sarhaus sy'n gysylltiedig

ag oed y dioddefwr.

Deilliannau Achosion

Penderfyniadau cyn-cyhuddo:	Ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, a phan ddisgwyllir ple euog, mae Erlynwyr yn gyfrifol am benderfynu a ddylid cyhuddo unigolyn o drosedd ac, os felly, pa drosedd ddylai hwnnw fod.
Wedi'i gyhuddo:	achosion pan benderfynodd y CPS y dylid dwyn achos yn erbyn y drwgdybyn.
Dim erlyniad:	achosion pan fydd y CPS yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd.
Ymdrin ag achosion y tu allan i'r llys:	pan roddwyd rhybudd, rhybudd amodol, cerydd neu rybudd terfynol neu pan fydd y drosedd wedi ei hystyried mewn cyswllt â chyhuddiadau eraill.
Cwblhau Gwaith Gweinyddol:	nid yw'r drwgdybyn wedi ateb mechnïaeth ac mae gwarant yn aros neu mae'r achos wedi ei derfynu yn weinyddol am amrywiol resymau.
Arall:	nid yw canlyniad y penderfyniad cyhuddo wedi ei gofnodi na'i ddiffinio.
Erlyniadau:	Yr holl ddiffynnyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai a derfynwyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw.
Euogfarnau aflwyddiannus:	yr holl erlyniadau a gwblhawyd pan na chafwyd y diffynnydd yn euog, gan gynnwys y canlynol:
Terfynu a thynnu'n ôl:	gall ystyriaeth o'r dystiolaeth a budd y cyhoedd arwain at i'r CPS benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn i'r treial gychwyn. Mae achosion wedi'u cynnwys yma a derfynwyd yn ffurfiol cyn y gwrandawriad, y rheiny na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth ynddynt, a'r rheiny a dynnwyd yn ôl yn ystod yr achos llys. Cynhwysir achosion yma hefyd lle cafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw'r heddwch.
Gwrthod ar ôl treial llawn:	achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y bydd y llys yn gwrthod yr achos ar ôl gwrandao achos yr amddiffyniad.
Barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu:	achosion pan, ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, y gwneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'anniogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr

	yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor.
Rhyddfarnu gan reithgor:	pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac, yn dilyn treial, yn cael ei ryddfarnu gan y rheithgor.
Canlyniadau aflwyddiannus eraill: traddodebau a ryddhawyd,	yn cynnwys terfyniadau gweinyddol, a dim achos i'w ateb.
Cwblhau gwaith gweinyddol:	pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys a Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw; neu nad yw'n ffit i bledio; neu pan fydd achosion yn cael eu gohirio'n amhenodol.
Dim achos i'w ateb:	achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y gwrandewir ar dystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan y llys heb wrando ar achos yr amddiffyniad.
Euogfarnau:	achosion lle ceir y diffynnydd yn euog yn dilyn erlyniad, gan gynnwys:
Ple euog:	pan fydd y diffynnydd yn pledio'n euog.
Euogfarn yn dilyn treial:	achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, ond yn cael ei ddyfarnu'n euog yn dilyn gwrando ar y dystiolaeth.
Prawf absenoldeb:	mae rhain yn droseddau llai - materion monitro yn bennaf – a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd.
Dwysau dedfryd:	Mae Adrannau 145 ac 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn darparu ar gyfer dwysau dedfryd mewn achosion o droseddau hiliol a chrefydd, troseddau homoffobaidd a thrawsffobaidd a throseddau casineb anabled.

Categoriâu rhesymau dros ganlyniadau aflwyddiannus

Tystiolaethol:	pan fydd yr erlynydd yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn.
Budd y cyhoedd:	pan ystyrir bod digon o dystiolaeth, ond mae'r erlynydd yn penderfynu bod ffactorau budd y cyhoedd yn pwysu yn erbyn erlyniad.
Rhesymau eraill:	pan fydd y diffynnydd yn cael ei rwymo, rhyddfarnu neu wrthod ar ôl achos, neu pan nad oes unrhyw ddewis arall yn briodol.
Cwblhau gwaith gweinyddol:	pan ni ellir erlyniad mynd yn ei flaen oherwydd bod y diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys ac mae Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi;

neu fod y diffynnydd wedi marw; neu nad yw'n ffit i bledio:
neu pan fydd achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol.

Rhesymau am ganlyniadau aflwyddiannus

Achwynydd yn tynnu'n ôl:	pan fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, mae'r dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu'n tynnu'n ôl, neu'n tynnu'r gŵyn yn ôl.
Achwynydd ddim yn mynychu:	gelwir yr achwynydd yn dyst mewn treial, ond mae'n methu mynychu'r llys.
Tystiolaeth yr achwynydd cefnogi'r achos:	nid yw tystiolaeth yr achwynydd am y trosedd yn nid yw'n cefnogi erlyn y diffynnydd, gan arwain at ganlyniad aflwyddiannus, ond, serch hynny, nid yw'r achwynydd wedi tynnu'n ôl. (Diwygiwyd y teitl rheswm yn Ebrill 2013 i: 'Nid yw tystiolaeth y dioddefwr yn cyrraedd safon prawf, ond nid yw wedi ei dynnu'n ôl').
Gwrthdaro tystiolaeth:	mae gwrthgyferbyniadau yn nhystiolaeth erlyniad yn arwain at erlyniad aflwyddiannus. (O Ebrill 2013, addaswyd y cyfarwyddyd i egluro na ddylid defnyddio'r rheswm hwn pan fydd yr achwynydd yn tynnu'n ôl, neu os nad yw'n mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf).
Elfen gyfreithiol hanfodol ar goll:	ni all yr erlyniad barhau oherwydd bod elfen gyfreithiol hanfodol ar goll o achos yr erlyniad. (Addaswyd y 'teitl rheswm' yn Ebrill 2013 i 'Penderfyniad cyhuddo anghywir – elfen gyfreithiol ar goll'; roedd y canllaw diwygiedig yn egluro na ddylid defnyddio'r rheswm hwn pan fydd y dioddefwr yn tynnu'n ôl, ddim yn mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf).
Ditiad neu ddedfryd arall:	nid yw'r achos yn mynd ymlaen oherwydd bod yr un diffynnydd yn destun ditmentau, neu ddedfrydau eraill mewn achosion eraill.
Rhyddfarnau ar ôl treial:	ceir y diffynnydd yn ddieuog gan yr ynadon neu reithgor ar ôl gwrandawriad sy'n cael ei herio pan fo'r amddiffyniad yn cael ei alw i gyflwyno'i achos. (Ni chynhwysir achosion wedi eu gwrthod, dim achos i'w ateb neu'r barnwr wedi cyfarwyddo rhyddfarn).
Categori prif drosedd:	bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddygir yn erbyn y diffynnydd wrth gwblhau'r achos.